

*All Wales Child Protection Procedures  
Review Group*

*Grŵp Adolygu Canllawiau Amddiffyn  
Plant Cymru Gyfan*



# **Diogelu Plant a Phobl Ifanc sy'n cael eu heffeithio gan Gam-drin Domestig**

# **Cyfarwyddyd Ymarfer Cymru Gyfan**

Terfynol:	27 <sup>ain</sup> o Fai 2011
Awdur:	AWCPPRG
Gweithredu:	
Adolygu:	

## Cynnwys

<b>1. Cyflwyniad</b>	<b>4</b>
1.1 Cyflwyniad	4
<b>2. Cyd-destun</b>	<b>4</b>
2.1 Diffiniad	4
2.2 Sut i ddefnyddio'r cyfarwyddyd ymarfer hwn	5
<b>3. Adnabod ac asesu effaith cam-drin domestig</b>	<b>5</b>
3.1 Effaith cam-drin domestig ar blant	5
3.2 Effaith cam-drin domestig ar blant heb eu geni	7
3.3 Effaith cam-drin domestig ar y rhieni nad ydynt yn cam-drin a'u gallu i rianta	8
3.4 Gallu'r partner sy'n cam-drin i rianta	8
<b>4. Camddefnyddio sylweddau ac afiechyd meddwl</b>	<b>9</b>
4.1 Y Rhiant Nad Yw'n Cam-drin	9
4.2 Partneriaid sy'n Cam-drin	9
<b>5. Rhwystrau i ddatgelu</b>	<b>10</b>
5.1 Rhwystrau i ddatgelu ar gyfer y rhiant nad yw'n cam-drin	10
5.2 Rhwystrau i ddatgelu ar gyfer plant	11
<b>6. Galluogi datgeliad (Adrannau gwasanaethau plant ALI, gweithwyr proffesiynol ym myd iechyd ac addysg/mewn ysgolion)</b>	<b>12</b>
6.1 Galluogi datgeliad i blant a'r rhieni nad ydynt yn cam-drin	12
6.2 Galluogi datgeliad i bartner sy'n cam-drin	13
<b>7. Pobl ifanc mewn perthynas lle mae cam-drin domestig yn digwydd</b>	<b>14</b>
<b>8. Partneriaid sy'n cam-drin a phlant/pobl ifanc</b>	<b>14</b>
8.1 Gweithio gyda dynion/menywod sy'n cam-drin eu partneriaid	14
8.2 Plant a phobl ifanc sy'n cam-drin aelodau o'r teulu	15
<b>9. Ymateb i gam-drin domestig</b>	<b>15</b>
9.1 Cyfrifoldebau gweithwyr proffesiynol	15
9.2 Rhannu gwybodaeth	16
<b>10. Asesu ac ymyrryd</b>	<b>16</b>
10.1 Casglu gwybodaeth a datgeliadau	16
<b>11. Ymateb yr heddlu</b>	<b>18</b>
<b>12. Yr Ymddiriedolaeth Prawf</b>	<b>19</b>
<b>13. Adrannau Gwasanaethau Plant ALI</b>	<b>20</b>
<b>14. Gwasanaethau iechyd</b>	<b>20</b>
<b>15. Adrannau addysg ALI/ysgolion</b>	<b>20</b>
<b>16. Diogelu</b>	<b>21</b>
16.1 Cynlluniau plentyn mewn angen/amddiffyn plentyn	21
16.2 Cynllunio diogelwch gyda phartneriaid nad ydynt yn cam-drin	21

16.3 Aros gyda phartner sy'n cam-drin	21
16.4 Gwahanu	22
<b>17. Cyswllt (Adrannau gwasanaethau plant ALL, asiantaethau cyfreithiol ac arbenigol a CAF/CASS Cymru)</b>	<b>23</b>
<b>18. Diogelwch staff</b>	<b>23</b>
<b>Atodiad 1: Mynychder a phroffil cam-drin domestig yn y DU</b>	<b>25</b>
<b>Atodiad 2: Enghreifftiau o ymddygiad camdriniol</b>	<b>30</b>
<b>Atodiad 3: Teuluoedd sy'n agored i niwed mewn ffyrdd ychwanegol</b>	<b>31</b>
<b>Atodiad 4: Cyfathrebu gyda phlentyn</b>	<b>33</b>
<b>Atodiad 5: Cwestiynau o esboniad i riant nad yw'n cam-drin</b>	<b>34</b>
<b>Atodiad 6: Cynllunio diogelwch gyda phartneriaid nad ydynt yn cam-drin</b>	<b>35</b>
<b>Atodiad 7: Gweithio gyda'r partneriaid sy'n cam-drin</b>	<b>39</b>
<b>Atodiad 8: Trais seiliedig ar anrhydedd (gan gynnwys priodas dan orfod ac enwaedu benywod)</b>	<b>42</b>
<b>Atodiad 9: Cynadledau Asesu Risg Amlasiantaeth ar Gam-drin Domestig (MARAC)</b>	<b>44</b>
<b>Atodiad 10: Asesu Risg a Rheoli Risg</b>	<b>46</b>
<b>Atodiad 11: Dewisiadau cyfreithiol a dewisiadau o ran tai</b>	<b>48</b>
<b>Atodiad 12: Rhifau ffôn a gwefannau</b>	<b>53</b>

***Cydnabyddiaethau:** Dymuna Grŵp Adolygu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan gydnabod cyfraniadau Protocol Cam-drin Domestig Rhyngasiantaethol Caerffili, Protocol Cam-drin Domestig Amlasiantaeth Gogledd Cymru a Gweithdrefn Bwrdd Lleol Diogelu Plant Llundain am ddarparu'r sail i'r Cyfarwyddyd Ymarfer Cymru Gyfan ar gyfer Plant a Phobl Ifanc sy'n cael eu Heffeithio gan Gam-drin Domestig.*

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Cyflwyniad

1.1.1 Mae plant sy'n byw mewn aelwydydd lle mae cam-drin domestig yn digwydd yn agored i risg sylweddol o niwed (Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau: Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004). Mae Adran 120 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 yn ehangu'r diffiniad o niwed, i gynnwys 'nam a ddiodefwyd o ganlyniad i weld neu glywed rhywun arall yn dioddef camdriniaeth' (rhoddwyd ar waith ym mis Ionawr 2005). 'Sicrhau'r Dystiolaeth Orau 2002'.

Dylai asiantaethau gymhwyso'r cyfarwyddyd ymarfer hwn i'r holl amgylchiadau sy'n ymwneud â cham-drin domestig. Caiff y rhan fwyaf o gam-drin domestig ei gyflawni gan ddyonion yn erbyn menywod, ac mae'r ddogfen hon yn rhoi cyfarwyddyd ar gyfer diogelu'r plant sydd, trwy fod mewn aelwydydd / perthnasoedd, yn ymwybodol o neu'n cael eu targedu fel rhan o'r cam-drin. Mae'r cyfarwyddyd ymarfer hwn yn defnyddio termau sy'n niwtral o ran y rhywiau yn unol â gofynion Asesu'r Effeithiau ar Gydraddoldeb gan gyfeirio at y dioddefydd/goroesydd fel rhiant nad yw'n cam-drin a'r sawl sy'n cam-drin fel y partner sy'n cam-drin. Cydnabyddir fod cam-drin domestig hefyd yn cael ei gyflawni gan fenywod yn erbyn dynion, o fewn perthnasoedd rhwng pobl o'r un rhyw, a rhwng unrhyw aelodau eraill o deulu. Mae'r mater lle mae plant yn byw gyda cham-drin domestig bellach yn cael ei gydnabod fel mater sydd o bwys ynddo'i hun gan asiantaethau llywodraethol ac asiantaethau allweddol ym maes gwasanaethau plant.

1.1.2 Mae'r cyfarwyddyd ymarfer hwn yn defnyddio'r term 'rhieni nad ydynt yn cam-drin' i ddisgrifio rhieni ac oedolion â phrif gyfrifoldebau gofalu parhaus am blant sy'n bartner nad yw'n cam-drin mewn perthynas ar yr adeg y ceir digwyddiad o gam-drin domestig.

1.1.3 Y pedwar anghenraid canolog wrth ddarparu unrhyw ymyrraeth ar gyfer plant sy'n byw gyda cham-drin domestig yw:

- Amddiffyn y plentyn/plant;
- Rhoi cymorth i'r rhiant nad yw'n cam-drin allu eu hamddiffyn eu hunain a'u plentyn neu blant;
- Dal y partner sy'n cam-drin yn atebol am eu gweithredoedd a rhoi cyfleoedd iddynt newid;
- Hybu gwydnwch mewn plant trwy feithrin y berthynas rhwng y partner nad yw'n cam-drin a'r plentyn.

## 2. Cyd-destun

### 2.1 Diffiniad

2.1.1 Caiff cam-drin domestig ei ddiffinio yn Strategaeth Cymru Gyfan ar Gam-drin Domestig fel:

'Defnyddio camdriniaeth neu drais corfforol ac/neu emosiynol, gan gynnwys tansellio hunan hyder, trais rhywiol neu fygythiad o drais, gan berson sydd mewn neu sydd wedi bod mewn perthynas agos.

Mae cam-drin domestig yn gallu bod yn fwy na thrais corfforol fel y cyfryw.

Mae'n gallu cynnwys cam-drin emosiynol hefyd, distrywio eiddo gŵr/gwraig neu bartner, ei hynysu oddi wrth ffrindiau, teulu neu ffynonellau posibl eraill o gefnogaeth, bygythiadau yn erbyn eraill gan gynnwys plant, rheoli eu gallu i fedru cael gafael ar arian, eitemau personol, bwyd, trafndiaeth a'r ffôn, a stelcian.

Mae hefyd yn gallu cynnwys trais a gyflawnir gan fab, merch neu unrhyw berson arall sydd â pherthynas agos neu berthynas waed gyda'r dioddefydd/goroesydd. Mae hefyd yn gallu cynnwys trais yn erbyn plant, neu drais y bydd plant yn dystion iddo. Rhaid cydnabod bod effeithiau niweidiol pellgyrhaeddol byw gyda cham-drin yn y cartref ar blant yn fater sy'n ymwneud ag amddiffyn plant. Gellir cysylltu'r effeithiau â chyflawniad addysgol gwael, eithrio cymdeithasol ac ieuencid yn troseddu, camddefnyddio sylweddau, problemau iechyd meddwl a digartrefedd yn sgil rhedeg i ffwrdd. Nid digwyddiad "unigol" yw cam-drin domestig; mae'n ddigwydd yn aml'.

Mae trothwyon ar gyfer ymyrryd mewn achosion o gam-drin domestig yn parhau i fod yn her i'r holl asiantaethau ac mae'n bwysig bod trothwyon yn cael eu monitro'n barhaus mewn fforymau perthnasol.

## 2.2 Sut i ddefnyddio'r cyfarwyddyd ymarfer hwn

2.2.1 Mae'r cyfarwyddyd ymarfer hwn yn un i'w ddefnyddio gan yr holl weithwyr proffesiynol mewn asiantaethau statudol a gwirfoddol (mae'r term yn cynnwys rheolwyr a staff heb gymhwyso a gwirfoddolwyr) sy'n cael cyswllt â phlant ac ag oedolion sy'n rhieni / gofalwyr, ac sydd felly â chyfrifoldebau am ddiogelu a hybu lles plant.

2.2.2 Mae'r cyfarwyddyd ymarfer hwn yn darparu gwybodaeth ar gyfer yr holl weithwyr proffesiynol i ategu ymarfer diogel a sicrhau ymateb integredig i ddiogelu plant a phobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin domestig.

2.2.3 Dylid darllen y cyfarwyddyd ymarfer hwn ar y cyd â *Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008*, *Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004* ac *Arferion Da mewn perthynas â Cam-drin Domestig: Diogelu Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru (LICC)*.

2.2.4 Gweler Atodiad 2 yn y ddogfen hon am enghreifftiau o ymddygiad camdriniol.

## 3. Adnabod ac asesu effaith cam-drin domestig

### 3.1 Effaith cam-drin domestig ar blant

3.1.1 Mae'r risgiau i blant sy'n byw gyda cham-drin domestig yn cynnwys:

- Camdriniaeth gorfforol neu rywiol uniongyrchol yn digwydd i'r plentyn. Mae ymchwil yn dangos bod hyn yn digwydd mewn hyd at 60% o'r achosion; gan ddangos hefyd bod difrifoldeb y gamdriniaeth yn erbyn y rhiant nad yw'n cam-drin yn arwydd o ddifrifoldeb y gamdriniaeth y bydd y plant yn ei dioddef<sup>1</sup>;
- Y plentyn yn cael ei gam-drin fel rhan o'r gamdriniaeth yn erbyn y rhiant nad yw'n cam-drin:

---

<sup>1</sup> Canfu astudiaeth gan Bowker, Arbitell a McFerron (1988), po fwyaf aml fo'r trais yn erbyn gwragedd, gan gynnwys trais corfforol a threisio priodasol, po fwyaf eithafol yw'r gamdriniaeth gorfforol a ddioddefir gan blant. Daeth yr awduron i'r casgliad canlynol: "the severity of the wife beating is predictive of the severity of the child abuse".

- Cael eu defnyddio fel gwystlon neu ysbiwyr gan y partner sy'n cam-drin mewn ymgais i reoli'r rhiant nad yw'n cam-drin;
- Cael eu gorfodi i gyfranogi mewn gweithredoedd cam-drin a diraddio gan y partner sy'n cam-drin.
- Y plentyn yn dioddef camdriniaeth emosiynol ac anaf corfforol o ganlyniad i fod yn dyst i'r cam-drin:
- Clywed ymosodiadau geiriol rhwng oedolion ar yr aelwyd
- Clywed y partner sy'n cam-drin yn cam-drin yn eiriol, yn bychanu ac yn bygwth defnyddio trais;
- Gweld cleisiau ac anafiadau a gafwyd gan y rhiant nad yw'n cam-drin;
- Clywed y rhiant nad yw'n cam-drin yn sgrechian ac yn ymbil am help;
- Gweld y partner sy'n cam-drin yn cael ei symud o'r cartref a'u cadw yn nalfa'r heddlu;
- Gweld y rhiant nad yw'n cam-drin yn cael eu cludo i'r ysbyty mewn ambiwlans;
- Ceisio ymyrryd mewn ymosodiad treisgar;
- Cael anaf corfforol o ganlyniad i ymyrryd neu gael eu hanafu'n ddamweiniol tra'u bod yn bresennol yn ystod ymosodiad treisgar.
- Canlyniadau materol negyddol i blentyn o ganlyniad i gam-drin domestig:
- Methu â gwahodd neu fod yn gyndyn o wahodd ffrindiau i'r tŷ;
- Achosion cyson o darfu ar fywyd cymdeithasol ac addysg o ganlyniad i symud gyda'r rhiant nad yw'n cam-drin wrth iddynt ddianc rhag y gamdriniaeth;
- Y rhiant nad yw'n cam-drin yn cael eu derbyn i'r ysbyty ac/neu'n dod i fod yn anabl yn barhaol.
- Marwolaeth rhiant/plentyn

### 3.1.2 Mae dangosyddion cam-drin domestig y dylid bod yn ymwybodol ohonynt yn cynnwys:

- Y plentyn yn datgelu'n uniongyrchol
- Tystiolaeth o anafiadau gan y plentyn
- Rhedeg i ffwrdd o'r cartref.
- Pryder neu ymddygiad sy'n gysylltiedig ag ofn neu salwch heb esboniad.
- Hunan-fri isel/lefelau cynyddol o bryder/iselder/hunan-fai
- Dicter neu ofn/cywilydd neu ddifaterwch
- Ymddygiad ymosodol a threisgar gan gynnwys bwlio
- Diffyg sgiliau datrys gwrthdaro/diffyg empathi tuag at eraill
- Anawsterau gyda chysgu neu fwyta – methu â ffynnu.
- Hunllefau a meddyliau ymwithiol/delweddau o drais.
- Enwresis
- Absenoldeb o'r ysgol ac/neu gyflawniad is yn yr ysgol, anhawster canolbwyntio.
- Anafiadau a allai arwain at beidio â chymryd rhan mewn gweithgareddau ysgol sy'n golygu bod rhannau o'r corff yn y golwg, er enghraifft chwaraeon.
- Camddefnyddio alcohol a sylweddau.

- Beichiogrwydd
- Bod yn dawedog, ymosodgar, anawsterau ymddygiadol neu ddal eu gwynt.
- Cyflawni troseddau
- Anawsterau o ran ffurfio perthnasoedd gyda chyfoedion
- Hunan-niwed
- Colli archwiliadau iechyd neu ddatblygiadol.
- Bod yn rhy warchodol o'r rhiant nad yw'n cam-drin ac/neu siblingiaid.
- Gall rhai plant ystyried y gamdriniaeth yn 'normal' a gallant efelychu gweithredoedd neu ymddygiad y sawl sy'n cam-drin yn amgylchedd y cartref neu'n gymdeithasol.
- Anhwylderau bwyta

3.1.3 Mae effaith cam-drin domestig ar blant yn debyg i effeithiau unrhyw gamdriniaeth neu drawma arall a bydd yn dibynnu ar ffactorau megis:

- Difrifoldeb a natur y gamdriniaeth;
- Am faint o amser y mae'r plentyn yn agored i'r gamdriniaeth;
- Nodweddion y plentyn o ran rhyw, tarddiad ethnig, oedran, anabledd, cefndir economaidd-gymdeithasol a diwylliannol;
- Y cynhesrwydd a'r gefnogaeth y mae'r plentyn yn eu derbyn yn eu perthynas gyda'r rhiant nad yw'n cam-drin, siblingiaid ac aelodau eraill o'r teulu;
- Natur a hyd perthnasoedd ehangach a rhwydweithiau cymdeithasol y plentyn; a
- Gallu'r plentyn i'w warchod ei hun ac i ba raddau y mae'n gwneud hyn mewn gwirionedd.

## 3.2 Effaith cam-drin domestig ar blant heb eu geni

3.2.1 Mae 30% o'r achosion o gam-drin domestig yn dechrau neu'n cynyddu yn ystod beichiogrwydd<sup>2</sup>, ac mae wedi cael ei nodi fel un o brif achosion camesgoriad neu farw-enedigaeth<sup>3</sup>, genedigaeth cyn pryd, niwed seicolegol i'r ffoetws o ganlyniad i effaith cam-drin, lefelau hormonau, anaf corfforol i'r ffoetws a marwolaeth y ffoetws<sup>4</sup>. Gall hyn atal menywod rhag ceisio neu dderbyn gofal cyn-geni neu ôl-enedigol priodol. Yn ogystal â hynny, lle mae cam-drin yn digwydd, gallai hyn effeithio ar ymlyniad wrth y plentyn, yn fwy byth os yw'r beichiogrwydd wedi deillio o ganlyniad i gael ei threisio gan ei phartner. Bellach mae'n rhaid i ymholiadau cyn-geni rheolaidd a wneir gan fydwagedd/ymwelwyr iechyd gynnwys cwestiwn am brofiad o gam-drin domestig. Oherwydd ymddygiad rheolgar y sawl sy'n cam-drin, mae'n bwysig bod yr ymholiadau hyn wastad yn cael eu gwneud i ffwrdd o'r partner sy'n cam-drin.

3.2.2 Gweler hefyd Adran 4.6 Risg yn y Dyfodol o Niwed i Blentyn Heb ei Eni yng *Ngweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008*.

<sup>2</sup> Saving Mother's Lives(2007) CEMACH

<sup>3</sup> Gillian Mezey, "Domestic Violence in Pregnancy" yn S. Bewley, J. Friend, a G. Mezey (gol.) *Violence against women* (Coleg Brenhinol yr Obstetregwyr a'r Gynaecolegwyr, 1997)

<sup>4</sup> Robert Anda, Vincent Felitti, J. Douglas Bremner, John Walker, Charles Whitfield, Bruce Perry, Shanta Dube, Wayne Giles, "The enduring effects of childhood abuse and related experiences: a convergence of evidence from neurobiology and epidemiology", yn *European Archives of Psychiatric and Clinical Neuroscience*, 256 (3) 174 – 186 (2006 – ar gael ar-lein yn: <http://childtraumaacademy.org/default.aspx>)

### **3.3 Effaith cam-drin domestig ar y rhieni nad ydynt yn cam-drin a'u gallu i rianta**

3.3.1 Mae'r plentyn/plant yn aml yn dibynnu ar y rhiant nad yw'n cam-drin fel yr unig riant da, gan fod y partner sy'n cam-drin yn debygol o fod â gallu llai o lawer i fod yn rhiant da. Mae hyn yn arbennig o wir am fod cam-drin domestig yn aml yn cyd-daro â lefelau uchel o gosbi, camddefnyddio grym a diffyg hunanreolaeth briodol gan y partner sy'n cam-drin.

3.3.2 Mae nifer o rieni nad ydynt yn cam-drin yn ceisio help am eu bod yn pryderu ynghylch y risg y mae cam-drin domestig yn ei achosi i'w plentyn/plant. Fodd bynnag, efallai nad yw cam-drin domestig yn lleihau gallu rhiant nad yw'n cam-drin i warchod eu plentyn neu blant. Gall rhieni nad ydynt yn cam-drin beidio â, neu efallai eu bod yn methu â chydabod y berthynas gamdriniol, neu gallant roi cymaint o sylw i'w goroesiad hwy eu hunain o fewn y berthynas fel nad ydynt yn ymwybodol o'r effaith ar eu plentyn/plant.

3.3.3 Mae rhieni nad ydynt yn cam-drin sydd wedi dioddef cam-drin domestig wedi disgrifio nifer o effeithiau corfforol, gan gynnwys symud yn aml o un llety i'r llall, cyfyngiadau economaidd, cael eu gwahanu oddi wrth rwydweithiau cymdeithasol ac, mewn rhai achosion, cael eu hatal yn gorfforol rhag cyflawni eu rôl rhianta gan y sawl sy'n cam-drin. Gall yr effaith seicolegol gynnwys:

- Colli hunanhyder fel unigolyn a rhiant;
- Teimlo'n flinedig yn emosiynol ac yn gorfforol, ac wedi ymbellhau oddi wrth eu plant;
- Peidio â gwybod beth i'w ddweud wrth eu plant;
- Anallu i ddarparu strwythur neu ddiogelwch priodol neu ffiniau emosiynol ac ymddygiadol priodol ar gyfer eu plant;
- Anhawster wrth reoli rhwystredigaethau a pheidio â bod yn grac gyda'u plant amdanynt;
- Anallu i roi cymorth i'w plentyn/plant gyflawni'n addysgol neu fel arall;
- Ddim wastad yn gallu adnabod y dylanwad a'r effeithiau ar eu plant ac mewn rhai achosion yn methu ag amddiffyn eu plant.

3.3.4 Mae cam-drin domestig yn cyfrannu'n uniongyrchol at fethiant iechyd meddwl, ac mae rhieni nad ydynt yn cam-drin sy'n profi camdriniaeth yn debygol iawn o ddioddef iselder ac anawsterau iechyd meddwl eraill sy'n arwain at hunan-niwed, ymgais i gyflawni hunanladdiad ac/neu gamddefnyddio sylweddau.

### **3.4 Gallu'r partner sy'n cam-drin i rianta**

3.4.1 Mae gweithwyr proffesiynol yn aml yn optimistaidd iawn ynghylch sgiliau rhianta dynion<sup>5</sup>, tra'u bod yn craffu'n llawer mwy manwl ar y modd y mae'r rhiant nad yw'n cam-drin yn rhianta. Fodd bynnag, mae ymchwil<sup>6</sup> wedi canfod bod gan y partneriaid sy'n cam-drin sgiliau rhianta israddol, gan gynnwys bod:

- Yn fwy croendenau;
- Yn llai serchus yn emosiynol;
- Yn llai o ran o fagu'r plentyn; a
- Defnyddio dulliau rheoli mwy negyddol, megis cosbi corfforol.

---

<sup>5</sup> Hester a Radford (1996)

<sup>6</sup> Holden a Ritchie (America, 1991)



## 4. Camddefnyddio sylweddau ac afiechyd meddwl

### 4.1 Y Rhiant nad yw'n cam-drin

- 4.1.1 Mae'r rhieni nad ydynt yn cam-drin sy'n profi cam-drin domestig yn fwy tebygol o ddefnyddio cyffuriau presgripsiwn, alcohol a sylweddau anghyfreithlon<sup>7</sup>.
- 4.1.2 I riant nad yw'n cam-drin sy'n profi cam-drin domestig, gall alcohol a chyffuriau gynrychioli ystod eang o strategaethau ymdopi a diogelwch. Gall rhieni nad ydynt yn cam-drin fod wedi dechrau defnyddio cyffuriau cyfreithlon a roddwyd ar bresgripsiwn i liniaru symptomau perthynas gamdriniol. Gall rhieni nad ydynt yn cam-drin droi at alcohol a chyffuriau fel math o hunanfeddyginiaeth a rhyddhad rhag y boen, yr ofn, yr arwahanrwydd a'r euogrwydd sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig. Gall defnyddio alcohol a chyffuriau helpu i waredu neu leihau'r teimladau hyn ac felly ddod yn rhan o'r ffordd y mae'n ymdopi â'r gamdriniaeth<sup>8</sup>.
- 4.1.3 Gall rhieni nad ydynt yn cam-drin gael eu rhoi dan orfodaeth a than ddylanwad i ddefnyddio alcohol a chyffuriau. Yn aml gall partneriaid sy'n cam-drin gyflwyno'u partner i ddefnyddio alcohol neu gyffuriau er mwyn cynyddu'u dibyniaeth arno/arni ac i reoli'u hymddygiad<sup>9</sup>. Ar ben hynny, mae unrhyw ymdrechion gan y partner nad yw'n cam-drin i roi'r gorau i ddefnyddio alcohol neu gyffuriau'n fygythiad i'r partner rheolgar a bydd rhai camdrinwyr yn mynd ati mewn ffordd weithredol i annog y rhiant nad yw'n cam-drin i roi'r gorau i dderbyn triniaeth.
- 4.1.4 Mae rhieni nad ydynt yn cam-drin mewn perthnasoedd camdriniol hefyd yn wynebu risg y bydd person arall yn camfanteisio arnynt. Gall rhieni nad ydynt yn cam-drin sy'n gweithio fel puteiniaid ddiodef cam-drin domestig trwy eu perthynas â'u pimpiaid; bydd y perthnasoedd hyn yn ddieithriad yn seiliedig ar rym, rheolaeth neu ddefnyddio trais.
- 4.1.5 Gall y gwarthnod dwbl sy'n gysylltiedig â bod yn ddiodefydd/goroesydd cam-drin domestig yn ogystal â bod â phroblem camddefnyddio sylweddau waethygu'r anawsterau wrth geisio cymorth, yn enwedig i rieni nad ydynt yn cam-drin sydd o gefndir du ac ethnig lleiafrifol.
- 4.1.6 Mae problemau iechyd meddwl megis iselder, symptomau trawma, ymgeisiau i gyflawni hunanladdiad a hunan-niwed yn aml yn 'symptomau camdriniaeth' ac mae angen rhoi sylw iddynt ochr yn ochr â materion camddefnyddio sylweddau a cham-drin domestig.
- 4.1.7 Efallai nad yw arferion camddefnyddio alcohol a chyffuriau ac/neu broblemau iechyd meddwl rhiant nad yw'n cam-drin a'u profiadau o gam-drin domestig yn gysylltiedig (neu efallai nad ydynt i gyd yn gysylltiedig) â'i gilydd. Felly mae angen i asesiadau ac ymyriadau ar gyfer y rhieni hyn nad ydynt yn cam-drin gael eu cynnal ar wahân, er y byddant yn rhan o'r un cynllun gofal, ac ar yr un pryd. Gall camddefnyddio sylweddau effeithio ar allu rhiant nad yw'n cam-drin i ymgysylltu ag ymyriad Amddiffyn Plant a gall fod angen cymorth ychwanegol ar yr adeg hon.

### 4.2 Partneriaid sy'n cam-drin

- 4.2.1 Gall camdrinwyr ddefnyddio'u harferion defnyddio alcohol neu gyffuriau hwy eu hunain neu rai eu partner fel esgus dros eu trais. Gall partner sy'n cam-drin

---

<sup>7</sup> J. Jacobs, *The Links between Substance Misuse and Domestic Violence: Current Knowledge and Debates* (Llundain: Alcohol Concern, 1998)

<sup>8</sup> Prosiect Stella, *Separate Issues Shared Solutions – Report from the Launch of the Stella Project* (Cynghrair Alcohol a Chyffuriau Llundain Fwyaf a Phrosiect Trais Domestig Llundain Fwyaf, 2003)

<sup>9</sup> yn yr un man.

fygwth amlygu'r defnydd gan riant nad yw'n cam-drin (neu blentyn yn ei ardegau). Efallai mai ef/hi yw'r cyflenwr a gall gynyddu lefel y ddibyniaeth trwy gynyddu dibyniaeth y riant nad yw'n cam-drin ar gyffuriau<sup>10</sup>.

- 4.2.2 Er gwaethaf y ffaith bod alcohol, cyffuriau a thrais yn erbyn menywod a phartneriaid nad ydynt yn cam-drin yn aml yn cyd-daro, nid oes tystiolaeth i awgrymu cyswllt achosol. Yn ogystal â hynny, nid oes tystiolaeth i ategu'r esboniad ar gyfer cam-drin domestig sy'n ymwneud â "cholli rheolaeth o ganlyniad i feddwdod" – mae ymchwil ac enghreifftiau achos yn dangos bod partneriaid sy'n cam-drin yn defnyddio grym a rheolaeth aruthrol ni waeth a ydynt yn feddw ai peidio.
- 4.2.3 Hyd yn oed lle nad yw ymosodiadau corfforol ond yn cael eu cyflawni pan fo'r cyflawnydd yn feddw, mae partneriaid sy'n cam-drin yn debygol o fod yn cam-drin mewn ffyrdd nad ydynt yn gorfforol pan eu bod yn sobor. Ni ddylid byth cymryd yn ganiataol y bydd gweithio gydag arferion defnyddio sylweddau partner sy'n cam-drin hefyd yn lleihau'r ymddygiad camdriniol. A dweud y gwir, gall y cam-drin gynyddu pan roddir triniaeth am broblem defnyddio sylweddau. Yn yr un modd, ni ddylid cymryd yn ganiataol y bydd trin afiechyd meddwl camdrinydd domestig o anghenraid yn lleihau eu hymddygiad camdriniol – eto, gallai'r cam-drin gynyddu.
- 4.2.4 Felly, dylai gwaith gyda phartner sy'n cam-drin gynnwys asesiadau ac ymyriadau ar wahân ar gyfer cam-drin domestig, camddefnyddio sylweddau ac/neu afiechyd meddwl. Mae canlyniadau'r ymyriadau'n fwy tebygol o fod yn gadarnhaol os ymdrinnir â'r ymddygiad cam-drin domestig, yr arferion defnyddio sylweddau ac/neu'r afiechyd meddwl ar yr un pryd.

## 5. Rhwystrau i ddatgelu

### 5.1 Rhwystrau i ddatgelu ar gyfer y riant nad yw'n cam-drin

5.1.1 Mae nifer o resymau y bydd riant nad yw'n cam-drin yn amharod neu'n methu â datgelu eu bod yn profi cam-drin domestig. Y rheswm fel arfer yw eu bod yn ofni y bydd y datgeliad (a'r broses o dderbyn help) yn waeth na'r sefyllfa bresennol ac y gallai fod yn angheuol. Gall y canlynol fod yn wir am rieni nad ydynt yn cam-drin:

- Gallant fychanu eu profiadau ac/neu beidio â'u diffinio fel cam-drin domestig (gallai'r safbwynt hwn fod yn seiliedig ar ddiwylliant);
- Gallant fethu â mynegi eu pryderon yn eglur (gall iaith fod yn rhwystr sylweddol i ddatgelu ar gyfer nifer o fenywod);
- Gallant ofni y bydd eu plant yn cael eu rhoi mewn cartref gofal;
- Gallant ofni y bydd y partner sy'n cam-drin yn dod o hyd iddynt eto o ganlyniad i ddiffyg cyfrinachedd;
- Gallant ofni marwolaeth;
- Gallant gredu addewid y partner sy'n cam-drin na fydd yn digwydd eto (nid yw nifer o rieni nad ydynt yn cam-drin yn dymuno gadael y berthynas o anghenraid, y cwbl y maent yn ei ddymuno yw i'r cam-drin ddod i ben);
- Gallant deimlo cywilydd ac embaras a gallant gredu mai eu bai hwy ydyw;
- Gallant ofni rhannu'r diraddiad sy'n gysylltiedig â cham-drin;
- Gallant deimlo na fydd pobl yn eu credu;

<sup>10</sup> Holly Taylor, Making the links between domestic violence and substance misuse – an evaluation of service provision in Tower Hamlets (Tim Trais Domestig Tower Hamlets, 2003)

- Gallant fod heb wybodaeth ddigonol/yn methu â gwybod ble i fynd i gael help;
- Gallant ofni na fyddant yn cael cymorth dilynol, naill ai am nad yw'r gwasanaethau ar gael neu am y byddant yn wynebu gwahaniaethu sefydliadol;
- Gallant ofni y bydd y camdrinydd yn trefnu iddynt gael eu cadw dan glo;
- Gallant ofni y byddant yn cael eu hynysu gan eu cymuned;
- Gallant ofni y byddant yn cael eu halltudio;
- Gallant ofni y bydd statws y camdrinydd yn cael ei amlygu ac y byddant yn cael eu cosbi â chynnydd yn y gamdriniaeth;
- Gallant ofni'r dyfodol (i ble y byddant yn mynd, sut y byddant yn cael arian, a fydd yn rhaid iddynt guddio am byth a beth fydd yn digwydd i'r plant);
- Gallant gael eu hynysu oddi wrth ffrindiau a theulu neu gael eu hatal rhag gadael y cartref neu estyn allan am gymorth;
- Gall eu bod wedi cael profiad gwael yn flaenorol pan wnaethant ddatgelu.

5.1.2 Mae rhai rhieni nad ydynt yn cam-drin sy'n syml ddim yn barod. Mae felly'n bwysig parhau i ofyn y cwestiwn.

## 5.2 Rhwystrau i ddatgelu ar gyfer plant

5.2.1 Mae plant sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin domestig yn ei chael yn anodd datgelu neu maent yn gwneud cryn ymdrech i guddio'r peth. Gallai hyn fod am fod y plentyn:

- Yn dymuno gwarchod y rhiant nad yw'n cam-drin;
- Yn dymuno gwarchod y rhiant sy'n cam-drin;
- Yn dymuno gwarchod yr uned deuluol, gan gynnwys ofn y bydd y teulu'n chwalu.
- Yn ofni'n fawr iawn beth fyddai canlyniad rhannu 'cyfrinachau' teuluol gydag unrhyw un. Gall hyn gynnwys ofnau y bydd yn achosi trais pellach yn erbyn y rhiant nad yw'n cam-drin ac/neu'r plentyn ei hun;
- Yn cael eu bygwth gan y rhiant sy'n cam-drin;
- Yn ofni y byddant yn cael eu rhoi mewn cartref gofal;
- Yn ofni y byddant yn colli eu ffrindiau a'u hysgol;
- Yn ofni gadael y teulu'n agored i waradwydd, cywilydd neu embaras;
- Yn ofni y gall y rhiant nad yw'n cam-drin (a'r plentyn ei hun) gael eu halltudio.
- Yn methu â gwybod ble i fynd i gael help.

5.2.2 Gweler Atodiad 4 Cyfathrebu gyda Phlentyn.

## 6. Galluogi datgeliad (Adrannau Gwasanaeth Plant ALL, gweithwyr proffesiynol ym myd iechyd ac addysg/mewn ysgolion)

### 6.1 Galluogi datgeliad i blant a'r rhieni nad ydynt yn cam-drin

- 6.1.1 Lle mae gweithiwr proffesiynol yn pryderu ynghylch / wedi adnabod arwyddion o gam-drin domestig, gall y gweithiwr proffesiynol godi'r pwnc gyda phlentyn neu riant nad yw'n cam-drin trwy ofyn cwestiwn fframio. Hynny yw, dylai'r cwestiwn fod wedi'i 'fframio' fel nad yw'r pwnc yn cael ei gyflwyno'n sydyn ac mewn modd lletchwith. Mae'n bwysig creu awyrgylch o ymddiriedaeth a chydberthynas wrth hwyluso datgeliadau.  
I gael enghreifftiau, efallai y bydd gweithwyr proffesiynol yn dymuno cyfeirio at Calder, Harold a Howarth yn eu llyfr 'Children Living with Domestic Violence' (2004)
- 6.1.2 Lles y plentyn yw'r peth pwysicaf a dylai'r gweithiwr proffesiynol egluro terfynau cyfrinachedd a'u cyfrifoldebau diogelu. Mae'n bwysig cael cydsyniad gwybodus lle bynnag y bo'n bosib i barchu'r hawl i fywyd preifat<sup>11</sup>. Os na roddir cydsyniad ni ellir ond rhannu gwybodaeth gydag asiantaethau eraill os yw'n gymesur ac yn angenrheidiol er mwyn atal trosedd neu ddiogelu hawliau'r dioddefydd ac/neu'r plant. (Sicrhau'r Dystiolaeth Orau 2004)
- 6.1.3 Yn gyffredinol, ni ddylai gwybodaeth gan ddioddefydd/goroesydd eu bod yn profi cam-drin domestig gael ei rhannu â'r partner sy'n cam-drin. Mewn sefyllfaoedd lle mae'r dioddefydd/goroesydd yn rhoi caniatâd, mae'n rhaid i asiantaethau sy'n asesu sicrhau bod hwn yn gydsyniad gwybodus.
- 6.1.4 Fel yr holl ddefnyddwyr gwasanaethau, mae gan unigolion sy'n profi cam-drin domestig hawl i wasanaeth cyfrinachol. Caiff pwysigrwydd cyfrinachedd ei gynyddu gan y ffaith y gall oedolion a phlant fod mewn perygl o ddiodef camdriniaeth bellach os yw'r person sy'n cam-drin yn dod yn ymwybodol bod y dioddefydd wedi siarad am y gamdriniaeth gydag asiantaeth allanol.
- 6.1.5 Yn ogystal â hynny, efallai na fydd y dioddefydd/goroesydd yn dymuno i aelodau eraill o'r teulu wybod eu bod wedi datgelu gwybodaeth am y gamdriniaeth, neu i weithwyr proffesiynol eraill gael gwybod am y gamdriniaeth. Ni ddylid rhannu'r wybodaeth hon heb ganiatâd y dioddefydd/goroesydd. Gall ddod yn angenrheidiol trafod gyda'r dioddefydd/goroesydd pa weithwyr proffesiynol eraill y mae angen iddynt wybod, unwaith y bydd asesiad cychwynnol neu graidd wedi cael ei gychwyn. Eto dylid rhoi ystyriaeth briodol i'r mater sy'n ymwneud â chadarnhau cydsyniad gwybodus.
- 6.1.6 Fodd bynnag, dylid ei gwneud yn glir na ellir gwarantu cyfrinachedd pan fo hynny'n gwrthdaro'n uniongyrchol â risg sydd ar fin digwydd i ddiogelwch plant, mewn sefyllfaoedd cronig lle teimlir fod effeithiau cronol y cam-drin yn annerbyniol neu lle mae unrhyw berygl i fywyd.
- 6.1.7 Mae rhannu gwybodaeth yn effeithiol yn hollbwysig mewn perthynas ag amddiffyn plant. Mae Adran 115 o Ddeddf Troseddau ac Anhrefn 1998 yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer rhannu gwybodaeth. Mae Deddf Plant 1989 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau rhannu gwybodaeth (a.47 isadran 9 ac isadran 11) pan fo ymholiadau'n cael eu gwneud dan adran 47 o'r

<sup>11</sup> Erthygl 8 Deddf Hawliau Dynol 1998, tudalen 46 'What to Do If You Are Worried a Child Is Being Abused.'

Ddeddf, i benderfynu a yw plant yn dioddef niwed sylweddol neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol.

6.1.8 Ni ddylai gweithwyr proffesiynol bwysu ar y plentyn am atebion, ond yn hytrach:

- Gwrando a chymryd yr hyn y mae'r plentyn yn ei ddweud o ddifrif;
- Tawelu meddwl y plentyn/plant nad eu bai hwy yw'r gamdriniaeth, ac nad eu cyfrifoldeb hwy yw ei hatal rhag digwydd;

## **6.2 Galluogi datgeliad i bartner sy'n cam-drin**

6.2.1 Dylai gweithwyr proffesiynol fod yn effro i, ac yn barod i dderbyn datgeliad a chael esboniad ar ddatgeliad am gam-drin domestig gan bartner sy'n cam-drin. Gall gweithwyr proffesiynol gael cyswllt gyda chamdrinydd ar eu pennau eu hunain (e.e. meddyg teulu neu wasanaeth camddefnyddio sylweddau neu iechyd meddwl) neu yng nghyd-destun teulu (e.e. mewn ysgol, uned damweiniau ac achosion brys, gwasanaeth mamolaeth neu adrannau gwasanaethau plant ALI).

6.2.2 Dylai gweithwyr proffesiynol ystyried y goblygiadau cyn ceisio galluogi datgeliad neu gael esboniad ar ddatgeliad gan bartner sy'n cam-drin, gan ystyried eu diogelwch hwy eu hunain a diogelwch unrhyw blentyn/plant a'r rhiant nad yw'n cam-drin.

6.2.3 Os yw'r camdrinydd yn datgan bod cam-drin domestig yn broblem, neu fod y gweithiwr proffesiynol yn amau ei fod, dylai'r gweithiwr proffesiynol wneud y canlynol:

- Canfod a oes plant ar yr aelwyd ac, os felly, faint o blant a beth yw eu hoedrannau;
- Os oes plant, dylid dweud wrth y camdrinydd bod byw gyda cham-drin domestig wastad yn effeithio ar blant, pa un a ydynt yn tystio iddo'n uniongyrchol ai peidio;
- Egluro terfynau cyfrinachedd a chyfrifoldebau diogelu;
- Ystyried a yw lefel y manylder a ddatgelwyd yn ddigonol. Os nad ydyw, efallai y bydd angen i'r gweithiwr proffesiynol ofyn cwestiynau o esboniad megis y rheiny a nodir yn Atodiad 7 Gweithio gyda phartneriaid sy'n cam-drin;
- Bod yn glir bod cam-drin wastad yn annerbyniol ac mai dewis yw ymddygiad camdriniol;
- Dangos parch, cadarnhau unrhyw atebolrwydd a ddangosir gan y camdrinydd, ond peidio â chydgyllwynio.

6.2.4 Dylai'r gweithiwr proffesiynol weithredu er mwyn diogelu'r plentyn/plant ac/neu'r rhiant nad yw'n cam-drin trwy:

- Hysbysu eu rheolwr llinell a'r swyddog enwebedig â phrif gyfrifoldeb am ddiogelu plant yn eu hasiantaeth a gwneud atgyfeiriad yn unol â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.

6.2.5 Dylai gweithwyr proffesiynol fod yn ymwybodol y bydd y mwyafrif o bartneriaid sy'n cam-drin yn gwadu neu'n bychanu cam-drin domestig. Gweler Atodiad 7 Gweithio gyda phartneriaid sy'n cam-drin.

## **7. Pobl ifanc mewn perthynas lle mae cam-drin domestig yn digwydd**

- 7.1 Menywod ifainc rhwng 16 a 24 oed sydd fwyaf mewn perygl o ddod yn ddiodefwr cam-drin domestig, ond mae merched 16 a 17 mlwydd oed yn dal i fod yn rhan o gylch gorchwyl amddiffyn plant yn hytrach na cham-drin yn y cartref.
- 7.2 Dylai menywod ifainc dan 18 (matau yn eu harddegau mewn rhai achosion) dderbyn cymorth a mesurau diogelu yn unol â Deddf Plant 1989 a Deddf Plant 2004.
- 7.3 Ar gyfer menywod ifainc dros 18 oed, dylai gweithwyr proffesiynol ddilyn eu gweithdrefn leol ar gyfer Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA), os yw'n briodol.
- 7.4 Dylai gweithwyr proffesiynol sy'n dod i gysylltiad â phobl ifanc (athrawon, nyrsys ysgol, gweithwyr iechyd rhyw proffesiynol, meddygon teulu ac ati) fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y gallai'r person ifanc fod yn profi cam-drin domestig o fewn eu perthynas.
- 7.5 Dylai gweithwyr proffesiynol sydd â phryderon bod menyw ifanc / mam yn ei harddegau'n cael ei cham-drin mewn perthynas ddefnyddio'r cyfarwyddyd ymarfer hwn, gan ei addasu i ganolbwyntio ar yr amgylchiadau a'r lleoliadau y mae'r fenyw / fam ifanc yn cwrdd â'i phartner ynddynt (e.e. dewis canolfannau a lleoliadau diogelach a defnyddio grwpiau cyfoedion i gwrdd, gallu adnabod ysgogyddion sy'n arwain at gam-drin domestig ac ymarfer ffyrdd diogel o adael a mynd adref ac ati).

## **8. Partneriaid sy'n cam-drin a phlant / pobl ifanc**

Dylai gweithwyr proffesiynol sy'n ymateb i bartneriaid neu blant/pobl ifanc sy'n cam-drin weithredu'n unol â difrifoldeb y gamdriniaeth.

### **8.1 Gweithio gyda phobl sy'n cam-drin eu partneriaid**

- 8.1.1 Prif nod gwaith gyda phobl sy'n cam-drin eu partneriaid yw cynyddu diogelwch plant a'r rhiant nad yw'n cam-drin. Ail nod yw dal y partner sy'n cam-drin yn atebol am eu hymddygiad camdriniol a rhoi cyfleoedd iddynt newid.
- 8.1.2 Bydd pobl sy'n cam-drin eu partneriaid yn ceisio rheoli unrhyw gyswllt y mae gweithiwr proffesiynol yn ei gael gyda hwy neu waith a wneir gyda hwy. Bydd y rhan fwyaf o bartneriaid sy'n cam-drin yn gwneud popeth y gallant i osgoi cymryd cyfrifoldeb am eu hymddygiad camdriniol tuag at eu partner a'u plentyn/plant.
- 8.1.3 Lle mae partner sy'n cam-drin yn barod i gydnabod eu hymddygiad camdriniol ac yn ceisio cymorth i newid, dylid annog a chadarnhau hyn. Dylai camdrinwyr o'r fath gael eu hatgyfeirio at raglenni priodol, sy'n gweithio i fynd i'r afael â'r strwythurau gwybyddol sy'n tanatgu ymddygiad rheolgar. Ni ddylai gweithwyr proffesiynol atgyfeirio at raglenni rheoli dicter, gan nad yw'r dull hwn yn herio'r ffactorau sy'n tanatgu defnydd y partner sy'n cam-drin o rym a rheolaeth.

- 8.1.4 Ni ddylai gweithwyr proffesiynol byth gytuno i dderbyn llythyr na throsglwyddo neges oddi wrth bartner sy'n cam-drin.
- 8.1.5 Ni ddylai gwaith cyflenwol rhwng partner sy'n cam-drin a rhiant nad yw'n cam-drin ond cael ei ystyried lle mae asesiad trylwyr o'r risgiau wedi cael ei gynnal. Os yw'n rhan o raglen achrededig, mae'n rhaid bod hon wedi cael ei chwblhau. Bydd gweithio ar wahân gyda phartneriaid sy'n cam-drin yn cynyddu'r risg i bartneriaid nad ydynt yn cam-drin. Dymuniadau'r dioddefydd/goroesydd sydd bwysicaf.
- 8.1.6 Dylai pobl sy'n cam-drin eu partneriaid gael eu gwahodd i gyfarfodydd ar y cyd gyda'r rhiant nad yw'n cam-drin dim ond lle canfuwyd ei bod yn ddiogel gwneud hyn gan drafod gyda chadeirydd y cyfarfod.

## **8.2. Plant a phobl ifanc sy'n cam-drin aelodau o'r teulu**

- 8.2.1 Gall rhai plant a phobl ifanc o'r ddau ryw gam-drin eu rhieni neu'u siblingiaid.
- 8.2.2 Dylai gweithwyr proffesiynol atgyfeirio plentyn sy'n cam-drin at adrannau gwasanaethau plant ALI yn unol â *Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008*.

## **9. Ymateb i gam-drin domestig**

### **9.1 Cyfrifoldebau gweithwyr proffesiynol**

- 9.1.1 Bydd gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda nifer o bobl sy'n profi cam-drin domestig a heb ddatgelu hynny. Mae ymchwil yn awgrymu bod menywod fel arfer yn profi 35 o ddigwyddiadau ar gyfartaledd cyn hysbysu'r heddlu<sup>12</sup>.
- 9.1.2 Dylai gweithwyr proffesiynol gynnig i'r holl blant a menywod, boed rhywun wedi dod yn gwmni iddynt neu beidio, y cyfle i gael eu gweld ar eu pen eu hunain (gan gynnwys ym mhob asesiad) gyda'u dewis o ymarferydd gwrywaidd/benywaidd, lle bynnag y bo'n ymarferol, a gofyn iddynt a ydynt yn profi neu wedi profi cam-drin domestig. Dylai gweithwyr proffesiynol fod yn ymwybodol o natur reolgar perthnasoedd camdriniol a'r ffaith y gallai fod yn anodd i'r dioddefydd gael eu gweld ar eu pen eu hunain.
- 9.1.3 Mae gweithwyr proffesiynol ym mhob asiantaeth mewn sefyllfa i adnabod neu dderbyn datgeliad ynghylch cam-drin domestig. Dylai gweithwyr proffesiynol fod yn effro i'r arwyddion y gall plentyn neu riant nad yw'n cam-drin fod yn profi cam-drin domestig, neu y gall partner fod yn cyflawni cam-drin domestig.
- 9.1.4 Ni ddylai gweithwyr proffesiynol byth gymryd yn ganiataol y bydd rhywun arall yn ymorol am y materion cam-drin domestig. Efallai mai hwn fydd y tro cyntaf neu'r unig dro i'r plentyn, y rhiant nad yw'n cam-drin neu'r partner sy'n cam-drin wneud datgeliad wrth, neu gael cyswllt gyda gwasanaethau mewn amgylchiadau sy'n rhoi cyfle ar gyfer camau gweithredu i ddiogelu.
- 9.1.5 Mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol sicrhau nad yw eu hymgeisiau i adnabod cam-drin domestig neu eu hymateb i adnabod neu ddatgelu cam-drin domestig yn ysgogi cynnydd mewn trais.
- 9.1.6 Yn arbennig, dylai gweithwyr proffesiynol gadw'r canlynol mewn cof:

---

<sup>12</sup> Yearnshire (1997)



- Ni ddylid ond codi cam-drin domestig fel pwnc gyda phlentyn neu riant nad yw'n cam-drin pan eu bod yn ddiogel ar eu pen eu hunain ac mewn lle preifat; ac
  - Nid yw gwahanu'n sicrhau diogelwch; yn aml mae'n cynyddu'r risg i'r plentyn/plant neu'r riant nad yw'n cam-drin o leiaf dros dro.
- 9.1.7 Dylai gweithwyr proffesiynol fod yn effro i'r ffaith y gall honiadau o gam-drin domestig gal eu gwneud yn erbyn unigolion y mae eu gwaith yn dod â hwy i gysylltiad â phlant ac/neu oedolion agored i niwed. Dan yr amgylchiadau hyn, dylai gweithwyr proffesiynol gyfeirio at Adran 4.3 yng *Ngweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008*.
- 9.1.8 Dylai gweithwyr proffesiynol fod yn ymwybodol o'u diogelwch eu hunain a diogelwch eu cydweithwyr. (Gweler Adran 17)

## 9.2 Rhannu gwybodaeth

Dylai gweithwyr proffesiynol sy'n derbyn gwybodaeth am gam-drin domestig egluro y bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i sicrhau nad yw diogelwch y plentyn/plant a'r riant nad yw'n cam-drin yn cael ei beryglu trwy rannu gwybodaeth.

Os oes pryder ynghylch perygl o niwed sylweddol i'r plentyn/plant, yna dyletswydd or-redol pob gweithiwr proffesiynol yw amddiffyn y plentyn/plant. Pan fo riant nad yw'n cam-drin yn gadael sefyllfa gamdriniol, ni ddylai'r partner sy'n cam-drin byth gael cyfeiriad na rhif ffôn y lle y mae'r riant nad yw'n cam-drin yn aros. Mae'n bwysig nodi bod risg yn cynyddu ar yr adeg pan fo perthynas yn chwalu a'r ddau bartner yn gwahanu. Dyma'r adeg fwyaf peryglus i nifer o bartneriaid nad ydynt yn cam-drin. Mae'r risg yn gyfnewidiol gan y gall gynyddu yn ogystal â lleihau.

## 10. Asesu ac Ymyrryd

### 10.1 Casglu gwybodaeth a datgeliadau

- 10.1.1 Dylai gweithwyr proffesiynol ddilysu a rhoi cymorth i blant a rhieni nad ydynt yn cam-drin trwy wneud y canlynol:
- Gwrando ar yr hyn y mae'r plentyn / riant nad yw'n cam-drin yn ei ddweud a chymryd yr hyn y mae ef/hi yn ei ddweud o ddifrif;
  - Egluro'r angen i sicrhau eu bod hwy ac eraill yn y teulu'n ddiogel. Bydd hyn yn golygu rhannu gwybodaeth â gweithwyr proffesiynol sy'n gallu helpu'r plentyn/plant ac/neu'r riant nad yw'n cam-drin i aros yn ddiogel (terfynau cyfrinachedd).
  - Tawelu meddwl y plentyn/plant nad eu bai hwy yw'r gamdriniaeth (a gyfeirir tuag at y riant nad yw'n cam-drin ac o bosib y plentyn/plant hefyd), ac nad eu cyfrifoldeb hwy yw ei hatal rhag digwydd.
  - Rhoi llawer o rifau ffôn i'r plentyn/plant, gan gynnwys y gwasanaethau heddlu lleol, y gwasanaethau eiriolaeth lleol ar gyfer cam-drin domestig (cyfeiriwch at wybodaeth a gynhyrchir yn lleol), adrannau gwasanaethau plant ALI a gwasanaethau rhanbarthol a chenedlaethol perthnasol (Gweler Atodiad 12 Rhifau ffôn a gwefannau).

10.1.2 Gweler Atodiad 4 Cyfathrebu gyda phlentyn.



10.1.3 Ni ddylai gweithwyr proffesiynol mewn asiantaethau heblaw adrannau gwasanaethau plant ALI, gweithwyr proffesiynol ym myd iechyd ac addysg / mewn ysgolion ond ceisio galluogi datgeliad, neu ddatgeliad pellach, os ydynt wedi cael hyfforddiant priodol i wneud hynny a'u bod yn seilio hynny ar bolisiâu, gweithdrefnau a threfniadau diogelu plant eu hasiantaeth. Os atebir y gofynion hyn, dylai'r gweithiwr proffesiynol gyfeirio at Adran 6 yn y cyfarwyddyd hwn, Galluogi Datgeliad (Adrannau gwasanaethau plant ALI, gweithwyr proffesiynol ym myd iechyd ac addysg/mewn ysgolion).

10.1.4 Pa un a yw plentyn neu riant nad yw'n cam-drin yn datgelu ai beidio, pan fo gweithiwr proffesiynol yn dod yn ymwybodol o gam-drin domestig mewn teulu, er mwyn asesu a rhoi sylw i faterion uniongyrchol mewn perthynas â diogelwch ar gyfer y plentyn/plant, y rhiant nad yw'n cam-drin a'r gweithiwr proffesiynol, dylai'r gweithiwr proffesiynol ganfod:

- Natur y gamdriniaeth;
- A oes plant eraill yn yr aelwyd. Os oes, dylid canfod nifer y plant, eu hoedran ac a oes ganddynt anghenion arbennig (mae plant bach a'r rheiny ag anghenion arbennig yn arbennig o agored i niwed am nad oes ganddynt y gallu i weithredu strategaethau diogelwch a'u bod yn ddibynnol ar y rhieni nad ydynt yn cam-drin i'w hamddiffyn);
- A yw partner y rhiant nad yw'n cam-drin gyda hwy ai peidio, a ble mae'r plant;
- Beth yw ofnau uniongyrchol plentyn neu riant nad yw'n cam-drin;
- A oes angen ceisio cynhorthwy ar unwaith; ac
- A oes gan y plentyn/plant a'r rhiant nad yw'n cam-drin rywle diogel i fynd.

10.1.5 Dylai'r gweithiwr proffesiynol wneud y canlynol:

- Lle bu datgeliad, rhoi cymorth i'r plentyn ac/neu'r rhiant nad yw'n cam-drin trwy gymryd yr hyn y maent yn ei ddweud o ddifrif;
- Penderfynu ar unwaith, lle y bo'n bosib, a oes angen i blentyn neu riant nad yw'n cam-drin gael eu trin neu eu hamddiffyn gan y gwasanaethau brys;
- Lle bu datgeliad, gofyn i'r plentyn ac/neu'r rhiant nad yw'n cam-drin pa strategaethau sydd ganddynt ar gyfer eu cadw eu hunain yn ddiogel (os o gwbl). Gweler Adran 15.2 Cynllunio Diogelwch;
- Cofnodi'r wybodaeth a ffynhonnell yr wybodaeth;
- Trafod yr wybodaeth / y pryderon gyda'r swyddog enwebedig yn yr asiantaeth â phrif gyfrifoldeb am ddiogelu plant a rheolwr llinell y gweithiwr proffesiynol a chytuno ar gyfrifoldeb am wneud atgyfeiriad;
- Defnyddio'r holl wybodaeth sy'n hysbys am y teulu i asesu'r risg o niwed i blentyn a'r rhiant nad yw'n cam-drin.
- Bydd yr wybodaeth am risg a gafwyd trwy'r asesiad hefyd yn cynorthwyo'r gweithiwr proffesiynol, y swyddog enwebedig yn yr asiantaeth â phrif gyfrifoldeb am ddiogelu plant a'r rheolwr llinell i benderfynu pa gamau gweithredu i'w cymryd mewn perthynas â'r camdrinydd.

10.1.6 Wrth asesu'r risg, dylai gweithwyr proffesiynol gofio am yr ystod o offer sydd ar gael. Mae arweiniad a roddir yng nghorff y weithdrefn hon ac sydd

ynghlwm wrthi ar ffurf atodiadau wedi'i fwriadu i gynorthwyo gweithwyr proffesiynol i asesu risg a rheoli risg ym maes cam-drin domestig. Mewn ymgais i roi cymaint o arweiniad â phosib, mae'r ddogfen hon yn cynnwys atodiad sy'n canolbwyntio ar asesu risg a rheoli risg, sef Atodiad 10.

- 10.1.7 Cydnabyddir y gall cam-drin rhywiol fod yn ffactor mewn cam-drin domestig. Dylid defnyddio Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC) pan fo hynny'n briodol a phan fo un ar gael. Bydd dioddefwyr/goroeswyr ymosodiad rhywiol yn cael gofal sensitif a chyd-deimladwy a gallant gael mynediad at gymorth cwnsela ac archwiliadau meddygol i ganfod heintiau ac atal beichiogrwydd. Gellir cymryd a storio samplau fforensig a gellir defnyddio'r rhain os a phan hysbysir yr heddlu. Mae nifer o ddioddefwyr/goroeswyr yn hapus i'r heddlu gael eu hysbysu ar unwaith ond mae ar eraill angen amser a chymorth cyn gwneud y penderfyniad hwn.

## Ymateb Asiantaethau Statudol i Gam-drin Domestig

### 11. Ymateb yr heddlu

- 11.1 Mae blaenoriaethau'r gwasanaeth heddlu wrth ymateb i gam-drin domestig fel a ganlyn:
- Amddiffyn bywydau oedolion a phlant sydd mewn perygl o ganlyniad i gam-drin domestig.
  - Ymchwilio i bob achos o gam-drin domestig yr hysbysir yn ei gylch.
  - Hwyluso gweithredu effeithiol yn erbyn troseddwyd fel y gellir eu dal yn atebol trwy'r gyfundrefn cyfiawnder troseddol.
  - Mabwysiadu dull amlasiantaeth rhagweithiol o atal a gostwng cam-drin domestig.
- 11.2 "Yr heddlu fel arfer sy'n dod i'r cysylltiad cyntaf â theuluoedd lle ceir problemau cam-drin domestig. Wrth ymateb i ddigwyddiadau o drais, dylai'r heddlu ganfod a oes unrhyw blant yn byw ar yr aelwyd. Dylid cael trefniadau ar waith rhwng yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol i alluogi'r heddlu i ganfod a yw'r plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Mae eisoes yn ofynnol i'r heddlu bennu a oes unrhyw orchmynion llys neu orchmynion gwahardd mewn grym o ran aelodau'r aelwyd. Mae'n arfer da i'r heddlu hysbysu'r adran gwasanaethau cymdeithasol ar ôl iddynt ymateb i ddigwyddiad o gam-drin domestig a bod plentyn yn byw ar yr aelwyd. Os oes gan yr heddlu bryderon penodol am ddiogelwch neu les plentyn, dylent wneud atgyfeiriad i'r adran gwasanaethau cymdeithasol yn nodi sail eu pryderon. Mae'n bwysig hefyd bod yn eglur ynghylch a yw'r teulu'n ymwybodol bod atgyfeiriad am gael ei wneud" Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004 (LICC) Adran 9:52.
- 11.3 Bydd yr heddlu'n ymchwilio'n rhagweithiol i bob digwyddiad sy'n cyd-fynd â'r diffiniad o gam-drin domestig, gan gynnwys casglu'r holl dystiolaeth a allai fod o gymorth i erlyn yn llwyddiannus. Y prif ffocws i'r swyddogion cyntaf sy'n mynychu yw amddiffyn y dioddefydd/goroesydd, gan gynnwys unrhyw blant sy'n bresennol. Lle mae plant yn bresennol yn yr aelwyd, bydd yr heddlu'n hysbysu Gwasanaethau Plant yr ALI ynghylch y digwyddiadau a fynychwyd. Bydd pob hysbysiad yn cynnwys asesiad risg mewn perthynas â holl amgylchiadau'r digwyddiad nid dim ond y rhai sy'n ymwneud â phlant.

- 11.4 Mae'r fersiwn ddrafft o Egwyddorion Cam-drin Domestig Cymru Gyfan yr Heddlu (nad ydynt wedi'u cytuno eto) yn cynnwys argymhelliad y dylai fod un erfyn asesu risg generig wedi'i gytuno i sicrhau y defnyddir dull corfforaethol a chyson yn y broses rheoli risgiau gyda lefelau diffiniedig a chytunedig o ymyrraeth ar gyfer pob lefel risg. Dylai'r erfyn cytunedig hwn gael ei ddefnyddio cyn pob atgyfeiriad at y gwasanaethau cymdeithasol.
- 11.5 Dylai swyddogion ymateb sy'n mynychu digwyddiadau ganfod pwy sydd â chyfrifoldeb riant neu gyfrifoldebau gofalu am yr holl blant yn yr aelwyd a sicrhau bod yr holl dystiolaeth sydd ar gael yn cael ei chasglu yn unol â'r Safonau Ymchwilio Gofynnol. Gall tystiolaeth o'r fath gynnwys anafiadau i'r dioddefydd, cyflwr safle'r digwyddiad, cyflwr ac ymddangosiad unrhyw blant, ymholiadau o ddrws i ddrws a chanfod digwyddiadau tebyg. Bydd ffotograffau'n cael eu tynnu o'r safle ac o'r dioddefydd/goroesydd lle bynnag y bo'n bosib.
- 11.6 Bydd swyddogion cam-drin domestig arbenigol yn cymryd camau gweithredu priodol yn unol â lefel y risg a ganfuwyd. Dylid ymchwilio i bob digwyddiad yn seiliedig ar egwyddorion arweiniol Llawlyfr Cyfarwyddyd Asiantaeth Genedlaethol Gwella'r Heddlu (NPIA), Canllawiau Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) ar Reoli Risgiau a'r gweithdrefnau Cam-drin Domestig Cymru Gyfan a Gweithredu Cydgysylltiedig Yn Erbyn Cam-drin Domestig (CAADA). Dylai polisïau heddluoedd unigol ymgorffori'r dogfennau hyn yn eang a dylent weithio ochr yn ochr â pholisïau cysylltiedig megis y rheiny sy'n ymwneud ag ymchwilio i gam-drin plant.
- 11.7 Dylai gweithdrefnau Cynhadledd Asesu Risgiau Amlasiantaeth (MARAC) fod yn rhan o bolisïau cam-drin domestig (Gweler Atodiad 9). Dylent sicrhau cydymffurfiaeth â'r fersiwn ddiweddaedig (Ebrill 09) o CAADA a chynnwys trefn adolygu gadarn.

## 12. Yr Ymddiriedolaeth Prawf

- 12.1 Mae gan Ymddiriedolaeth Prawf Cymru (YPC) ran arwyddocaol i'w chwarae o ran Diogelu Plant a Phobl Ifanc sy'n cael eu heffeithio gan Gam-drin Domestig o fewn ei chylch gorchwyl i ddiogelu'r cyhoedd a gostwng cyfraddau aildrosedd. Fel sefydliad diogelu'r cyhoedd, mae YPC yn blaenoriaethu'r gwaith o wella diogelwch dioddefwyr, ac yn sicrhau bod trefniadau ar waith i ganfod cyflawnwyr cam-drin domestig a'r rheiny sy'n wynebu risg o gam-drin domestig y mae ganddi gyfrifoldebau statudol amdanynt neu gyfrifoldebau sy'n ymwneud â diogelu'r cyhoedd, a mynd i'r afael ag ymddygiad troseddol cyflawnwyr a chyfyngu ar yr ymddygiad hwn.
- 12.2 Mae YPC wedi cyhoeddi Cyfarwyddiadau Ymarfer Proffesiynol i fynd i'r afael â cham-drin domestig a diogelu plant yn unol â'r cyfarwyddyd ymarfer hwn ac adrannau perthnasol yng Ngweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.
- 12.3 Wrth reoli cyflawnwyr cam-drin domestig, mae'r ffocws o ran rheoli'r troseddwr ar leihau'r risg o niwed a achosir gan y troseddwr trwy gyfuniad o driniaeth, rheoli neu fonitro naill ai'n uniongyrchol (pan alluogir hynny gan y Llys) neu drwy gyswllt rhyngasiantaethol. Mae ystod o ymyriadau strwythuredig ar gael gan ddibynnu ar lefel y risg i ddioddefwyr a achosir gan y cyflawnydd. Mae rhaglenni a orfodir gan y Llys yn cynnwys y Rhaglen Cam-drin Integredig (IDAP), sy'n canolbwyntio ar strategaethau ar gyfer ymddygiad

nad yw'n rheolgar a gwell empathi gyda'r dioddefydd. Caiff yr ymyriad hwn ei ddarparu o fewn fframwaith o asesiadau risg, a mesurau reoli risg, ar sail ryngasiantaethol, a chyswllt ar wahân gyda'r dioddefwr a gwaith grŵp craidd.

- 12.4 Mae YPC yn gyfrannydd allweddol at gynadleddau MARAC gyda rheolwyr arweiniol yn cael eu henwebu i gynrychioli'r sefydliad ym mhob Uned Gyflawni Leol ledled Cymru. Mae diogelwch plant a phobl ifanc yn ystyriaeth ac ysgogydd allweddol yn yr holl waith ar gam-drin domestig ac mae ymwybyddiaeth staff o ymarfer a gweithdrefnau perthnasol a'u sgiliau ymyrryd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i gynnal ffocws clir ar y maes hwn.

### **13. Adrannau Gwasanaethau Plant ALI**

- 13.1 Dylai adrannau Gwasanaethau Plant ymateb i atgyfeiriad ar ran plentyn sydd mewn perygl o gam-drin domestig yn unol â'r cyfarwyddyd ymarfer hwn a'r adrannau perthnasol yng *Ngweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008*. Lle mae angen blaenoriaethu gwaith diogelu a bod diffyg cydsyniad, dylid ystyried gwneud i ffwrdd â'r angen am gydsyniad teuluoedd cyn bod asiantaethau'n gwneud atgyfeiriad.
- 13.2 Bydd gweithwyr proffesiynol yn asesu'r plentyn a'i deulu gan ddefnyddio'r Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd (Yr Adran Iechyd, 2000), gan ystyried ffactorau megis:

- Natur y gamdriniaeth;
- Risgiau i'r plentyn a achosir gan y camdrinydd;
- Risgiau o anaf difrifol neu farwolaeth;
- Patrwm ymosod ac ymddygiad cymhellol y camdrinydd;
- Effaith y gamdriniaeth ar y rhiant nad yw'n cam-drin;
- Effaith y gamdriniaeth ar y plentyn;
- Effaith y gamdriniaeth ar rolau rhianta;
- Ffactorau gwarchodol; a hefyd
- Canlyniad ymdrechion gan y rhiant nad yw'n cam-drin i geisio help yn y gorffennol.

### **14. Gwasanaethau iechyd**

- 14.1 Dylai gweithwyr iechyd proffesiynol, gan gynnwys yr holl Wasanaethau Gofal Sylfaenol, ymateb i gam-drin domestig yn unol â'r cyfarwyddyd ymarfer hwn, yr adrannau perthnasol yng *Ngweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008* ac arweiniad y Llywodraeth: *Responding to domestic abuse: A handbook for health professionals (Yr Adran Iechyd, 2005)*. Mae gan wasanaethau mamolaeth, gan gynnwys Ymwelwyr Iechyd, rôl arbennig wrth gofrestru menywod beichiog a phlant hyd at 5 oed gyda'u gwasanaethau a'u monitro. Gweler hefyd "Ymchwiliad Rheolaidd Cyn-geni i Gam-drin yn y Cartref. Rhaglen Hyfforddi. Ymchwiliad Rheolaidd i Gam-drin Domestig – Llwybr Cymru Gyfan"

### **15. Gwasanaethau addysg ALI / ysgolion**

- 15.1 Mae angen i ysgolion a staff addysgol fod yn effro i arwyddion bod disgyblion yn byw mewn amgylchedd lle mae cam-drin domestig yn digwydd. Gall

arwyddion o'r fath gynnwys triwantiaeth a diffyg presenoldeb, newidiadau sylweddol mewn ymddygiad a ffrwydradau emosiynol annodweddiadol. Gall disgyblion hefyd ddod i fod yn anhrefnus yn eu gwaith a cholli eitemau o offer.

Mae'n bwysig bod staff ysgolion ac AALI yn ymwybodol o oblygiadau cam-drin domestig i blant a theuluoedd. Gall disgyblion sydd wedi tystio i gam-drin domestig fod â phroblemau ymddygiadol sylweddol; gall fod ganddynt hunan-fri isel a all effeithio ar eu gallu i ddysgu. Gallant arddangos problemau ymddygiadol megis bod yn dawedog, wedi'u hynysu a bod â pherthnasoedd gwael gyda chyfoedion. Gall fod newidiadau yn eu hymddygiad megis dod yn fwli neu gael eu bwlio, gallant brofi ffrwydradau emosiynol, gallant driwanta o'r ysgol neu fod â phresenoldeb gwael. Gall disgyblion ddod i fod yn anhrefnus gyda'u gwaith, gallant fethu â chwblhau tasgau ac efallai golli eitemau o offer. Gall ysgolion a staff AALI gael eu gwneud yn ymwybodol o deuluoedd sy'n dioddef cam-drin domestig trwy'r MARAC Cam-drin Domestig. Mae'n hanfodol bod staff yn cydnabod y gall fod ar blant angen cymorth ychwanegol yn yr ysgol pan eu bod yn cael y profiad yma.

## 16. Diogelu

### 16.1 Cynlluniau Plentyn mewn Angen/Amddiffyn Plentyn

**16.1.1 Dylai unrhyw gynllunio ar gyfer diogelwch plentyn/plant gael ei wneud yn unol â rhan 3 o Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008** Cyn gynted â bod gweithiwr proffesiynol yn dod yn ymwybodol o gam-drin domestig mewn teulu a bod plentyn mewn angen neu blentyn y mae angen ei amddiffyn, dylid gwneud atgyfeiriad at Wasanaethau Plant yr ALI.

16.1.2 Mae cynllunio diogelwch ar gyfer rhieni nad ydynt yn cam-drin a phlant yn allweddol i'r holl ymyriadau i ddiogelu plant mewn sefyllfaoedd o gam-drin domestig. Dylai pob asesiad cyntaf a dilynol o'r risg i blentyn/plant a'r rhiant nad yw'n cam-drin gynnwys barn ar y modd y mae'r teulu'n cynllunio diogelwch ar hyn o bryd. Dylai fod cynlluniau diogelwch mewn argyfwng yn bodoli tra bo asesiadau, atgyfeiriadau ac ymyriadau'n mynd rhagddynt.

16.1.3 Mewn rhai achosion sy'n cyrraedd y trothwy uchaf a lle mae risg sylweddol o niwed i'r plentyn/plant, dylai'r cynllun / strategaeth diogelwch mewn argyfwng fod yn un i sicrhau bod y plentyn/plant ac, os yn bosib, y rhiant nad yw'n cam-drin, yn peidio â chael cyswllt â'r partner sy'n cam-drin.

16.1.4 Dylai gweithwyr proffesiynol sydd wedi cael hyfforddiant priodol mewn asiantaethau heblaw'r heddlu, adrannau gwasanaethau plant ALI, gwasanaethau iechyd ac addysg / ysgolion a gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol gael eu cynorthwyo gan bolisiâu a gweithdrefnau eu hasiantaeth ar ddiogelu plant. Dylid cytuno gydag asiantaethau statudol pwy ddylai gwblhau'r cynllun diogelwch. Os atebir y gofynion hyn, dylai'r gweithiwr proffesiynol ddilyn adran 15.2 isod.

### 16.2 Cynllunio diogelwch gyda phartneriaid nad ydynt yn cam-drin

16.2.1 Gall gweithwyr proffesiynol ddefnyddio'r Profforma yn Atodiad 6 Cynllunio diogelwch gyda phartneriaid nad ydynt yn cam-drin i helpu'r rhiant nad yw'n cam-drin i ddatblygu cynllun diogelwch. Mae angen i'r broses o gynllunio diogelwch ddechrau â dealltwriaeth am safbwyntiau'r rhiant nad yw'n cam-

drin am y risgiau iddynt hwy eu hunain ac i'w plentyn/plant a'r strategaethau sydd ganddynt i fynd i'r afael â'r risgiau hynny.

### **16.3 Aros gyda phartner sy'n cam-drin**

- 16.3.1 Un cwestiwn allweddol yw a yw rhiant nad yw'n cam-drin yn bwriadu aros yn y berthynas gyda'r partner sy'n cam-drin. Os yw'n bwriadu gwneud hynny, dylai gweithwyr proffesiynol asesu'r risg o niwed i'r plant, i benderfynu a ellir rheoli'r risgiau o niwed i'r plant â chynllun o'r fath. Mae'n bwysig bod yn ymwybodol y bydd gwybodaeth gan ystod o asiantaethau'n goleuo'r penderfyniad hwn yn unol â gweithdrefnau diogelu.
- 16.3.2 Os yw'r rhiant nad yw'n cam-drin yn dewis peidio â gwahanu, dylid cynnig cymorth parhaus. Dylai gweithwyr proffesiynol wneud pob ymdrech rhesymol i gynnwys y rhiant sy'n cam-drin a'u hatgyfeirio at raglen briodol.
- 16.3.3 Mae angen i weithwyr proffesiynol ystyried gyda'r rhiant nad yw'n cam-drin pa gamau gweithredu sy'n ofynnol os oes angen cysylltu â'r partner sy'n cam-drin i sicrhau diogelwch y rhiant nad yw'n cam-drin a'r plant. Yn benodol, ni ddylai gweithwyr proffesiynol ddweud wrth y camdrinydd beth yw'r honiadau cyn eu bod wedi datblygu cynllun diogelwch ar gyfer hyn gyda'r rhiant nad yw'n cam-drin a'r plant.
- 16.3.4 Os bydd sefyllfa lle mae gweithiwr proffesiynol yn ymdrin â phryderon gyda'r partner sy'n cam-drin yn rhoi'r rhiant nad yw'n cam-drin a'r plant mewn perygl pellach, yna dylai'r gweithiwr proffesiynol a'r rhiant nad yw'n cam-drin gynllunio ar gyfer gwahanu.
- 16.3.5 Gweler hefyd Adran 8 Partneriaid sy'n cam-drin a phlant / pobl ifanc.

### **16.4 Gwahanu**

- 16.4.1 Os yw rhiant nad yw'n cam-drin yn dymuno gwahanu, mae angen i weithwyr proffesiynol sicrhau bod digon o gymorth i roi'r cynllun hwn ar waith a bod y dewis o le diogel priodol wedi cael ei ystyried. Yn benodol, dylai gweithwyr proffesiynol fod yn ymwybodol nad yw gwahanu ynddo'i hun yn sicrhau diogelwch. Yn aml, mae'n cynyddu, dros dro o leiaf, y risg i'r plentyn/plant neu'r rhiant nad yw'n cam-drin.
- 16.4.2 Dylai'r posibilrwydd o symud y partner sy'n cam-drin yn hytrach na'r rhiant nad yw'n cam-drin a'r plentyn/plant gael ei ystyried yn gyntaf, ac felly mae cyswllt cynnar â'r adran dai'n bwysig. Gweler Atodiad 11 Dewisiadau cyfreithiol a dewisiadau o ran tai.
- 16.4.3 Mae'r rhwystrau sy'n atal rhiant nad yw'n cam-drin rhag gadael partner sy'n cam-drin yr un fath â'r rheiny sy'n atal rhieni nad ydynt yn cam-drin rhag datgelu'r cam-drin domestig yn y lle cyntaf – ofnau y bydd gwahanu'n waeth na'r sefyllfa bresennol neu'n angheuol. Gweler adran 5.1 Rhwystrau i ddatgelu ar gyfer y rhiant nad yw'n cam-drin.
- 16.4.4 Mae angen i weithwyr proffesiynol fod yn ymwybodol ei bod yn bosib nad gwahanu yw'r cynllun diogelwch gorau os nad yw'r rhiant nad yw'n cam-drin yn gwbl ymrwymedig i adael, ac y mae'n ddigon posib o ganlyniad y bydd yn dychwelyd.
- 16.4.5 Lle mae gweithiwr proffesiynol a rhiant nad yw'n cam-drin yn anghytuno ynghylch yr angen i wahanu, tasg y gweithiwr proffesiynol yw cyfleu i'r rhiant



nad yw'n cam-drin bod eu rhesymau dros fod yn awyddus i aros yn cael eu deall a'u gwerthfawrogi. Fodd bynnag, os ystyrir fod y trothwy o ran risg o niwed sylweddol wedi cael ei gyrraedd mewn perthynas â'r plentyn/person ifanc, mae'n rhaid i'r gweithiwr proffesiynol wneud atgyfeiriad at adran gwasanaethau plant yr ALI yn unol â *Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008*.

## **17. Cyswllt (Adrannau Gwasanaethau Plant ALI, asiantaethau cyfreithiol ac arbenigol a CAF/CASS Cymru)**

- 17.1 Mae nifer o rieni nad ydynt yn cam-drin, er gwaethaf penderfyniad i wahanu, yn credu ei bod er lles y plentyn/plant eu bod yn gweld y rhiant sy'n cam-drin. Mae eraill yn cael eu gorfodi gan y llysoedd i ganiatáu cyswllt.
- 17.2 Gall rhieni nad ydynt yn cam-drin fod yn fwyaf agored i ymosodiad camdriniol difrifol yn y cyfnod ar ôl gwahanu. Gall cyswllt fod yn fecanwaith i'r partner sy'n cam-drin ddod i hyd i'r rhiant nad yw'n cam-drin a'r plant.
- 17.3 Gall plant hefyd fod yn agored i ymosodiad camdriniol fel ffordd o frifo'r rhiant nad yw'n cam-drin. Gall partneriaid sy'n cam-drin hefyd ddefnyddio cyswllt â'r plentyn/plant i frifo'r rhiant nad yw'n cam-drin trwy, er enghraifft, ddirfrio'r rhiant nad yw'n cam-drin wrth siarad gyda'r plant neu roi'r bai arnynt am fod y rhieni wedi gwahanu. Felly, trwy gyswllt gall y plentyn/plant fod yn agored i fwy o niwed corfforol ac/neu emosiynol a seicolegol.
- 17.4 Dylai gweithwyr proffesiynol sy'n rhoi cymorth gyda chynlluniau i wahanu roi ystyriaeth ar adeg gynnar i safbwyntiau'r rhiant nad yw'n cam-drin ynghylch cyswllt ar ôl gwahanu. Dylai'r gweithiwr proffesiynol amlinellu'n glir i'r rhiant nad yw'n cam-drin y ffactorau y mae angen eu hystyried i farnu bod cyswllt er lles y plentyn.
- 17.5 Dylai gweithwyr proffesiynol hefyd siarad gyda a gwranddo ar bob plentyn mewn perthynas â chyswllt ar ôl gwahanu. Dylai gweithwyr proffesiynol gwblhau asesiad o'r risgiau a allai ddeillio o gyswllt i'r rhiant nad yw'n cam-drin a'r plentyn/plant.
- 17.6 Lle mae'r asesiad yn dod i'r casgliad bod risg o niwed, mae'n rhaid i'r gweithiwr proffesiynol argymhell na ddylai unrhyw gyswllt heb oruchwyliaeth ddigwydd nes bod asesiad risg llawnach wedi cael ei gwblhau gan asiantaeth ag arbenigedd mewn gweithio gyda phobl sy'n cam-drin eu partneriaid.
- 17.7 Dylai gweithwyr proffesiynol sicrhau bod rhieni nad ydynt yn cam-drin yn gwybod ble y gallant gael mynediad at wybodaeth am eu hawliau cyfreithiol os yw partner sy'n cam-drin yn gwneud cais dan gyfraith breifat am gyswllt. Bydd hyn fel arfer trwy gyfreithiwr sy'n ymarfer mewn cyfraith teulu.
- 17.8 Os ceir asesiad sy'n dynodi na ddylai cyswllt heb oruchwyliaeth neu gyswllt o unrhyw fath ddigwydd, gall gweithwyr proffesiynol wneud eu safbwyntiau'n hysbys i'r Llys trwy eu nodi'n ysgrifenedig a'u rhoi i'r dioddefydd/goroesydd fel bod y dioddefydd yn gallu eu rhoi i'r cyfreithiwr neu i'r Llys ond dim ond wedi i'r gweithiwr proffesiynol ymgynghori â'u rheolwr ac/neu gyfreithiwr.
- 17.9 Dylai gweithwyr proffesiynol sicrhau bod unrhyw gyswllt heb oruchwyliaeth yn ddiogel i'r rhiant nad yw'n cam-drin a'r plentyn/plant, a'i fod yn cael ei

adolygu'n rheolaidd. Dylid ceisio safbwyntiau'r plentyn/plant fel rhan o'r broses adolygu hon.

## **18. Diogelwch staff**

- 18.1 Mae gweithwyr proffesiynol yn wynebu risg pryd bynnag y byddant yn gweithio gyda theulu lle mae un neu fwy o aelodau'r teulu'n cam-drin.
- 18.2 Dylai gweithwyr proffesiynol:
- Fod yn ymwybodol bod cam-drin domestig yn bresennol ond heb gael ei ddatgelu neu heb fod yn hysbys mewn nifer o'r teuluoedd y maent yn gweithio gyda hwy;
  - Sicrhau eu bod yn gyfarwydd â pholisi eu hasiantaeth ar ddiogelwch yn y gwaith;
  - Peidio ag ymweld â chartref ar eu pennau eu hunain lle mae posibilrwydd y gall partner sy'n cam-drin fod yn bresennol, na gweld partner sy'n cam-drin ar eu pen eu hunain yn y swyddfa;
  - Osgoi eu rhoi ei hunain mewn sefyllfa beryglus (e.e. trwy gynnig siarad gyda'r camdrinydd am y rhiant nad yw'n cam-drin neu gael eu gweld gan y camdrinydd fel bygythiad i'w perthynas);
  - Sicrhau bod unrhyw risg yn cael ei gyfleu i weithwyr asiantaeth eraill sy'n ymwneud â'r teulu.
- 18.3 Dylai rheolwyr sicrhau bod gweithwyr proffesiynol wedi cael yr hyfforddiant priodol a'u bod yn meddu ar y sgiliau priodol ar gyfer gweithio gyda phlant a'u teuluoedd sy'n profi cam-drin domestig; a'u bod yn defnyddio sesiynau goruchwyllo i alluogi'r gweithiwr proffesiynol i fynegi ofnau ynghylch cam-drin mewn teulu'n cael ei gyfeirio yn eu herbyn hwy; a hefyd i wirio bod arferion diogel yn cael eu dilyn ym mhob achos lle gwyddys fod cam-drin domestig yn digwydd neu lle mae amheuaeth ei fod yn digwydd.

**D.S. DYLAI POB SEFYDLIAD PROFFESIYNOL SICRHAU BOD EU STAFF YN CAEL YR HYFFORDDIANT PRIODOL AC YN DILYN EU POLISIÄU IECHYD A DIOGELWCH MEWNOL HWY EU HUNAIN.**



## Atodiad 1: Mynychder a phroffil cam-drin domestig yn y DU

- Mae'r mwyafrif o achosion o gam-drin domestig yn rhai lle mae dynion gwahanrywiol yn cam-drin eu partneriaid neu gyn-bartneriaid benywaidd i.
- Roedd 16% o'r troseddau treisgar y dywedodd pobl amdanynt wrth ymateb i Arolwg Troseddau Prydain (2005/06) yn perthyn i'r dosbarth cam-drin domestig, gyda ffigyrau tebyg ar gyfer y blynyddoedd blaenorol ii.
- O'r holl droseddau treisgar yr ymchwiliwyd iddynt gan Arolwg Troseddau Prydain (nad yw'n cynnwys rhai categorïau megis ymosodiadau rhywiol yn erbyn plant a masnachu mewn plant) caiff cam-drin domestig ei nodi'n gyson fel y trosedd treisgar sydd leiaf tebygol o gael ei wneud yn hysbys i'r heddlu iii.
- Ar gyfartaledd dros y blynyddoedd rhwng 1995 a 2006, cafodd dwy fenyw yr wythnos yng Nghymru a Lloegr eu lladd gan bartner neu gyn-bartner iv.
- Mae menywod yn wynebu'r risg mwyaf o gael eu lladd ar yr adeg y byddant yn gwahanu neu ar ôl gadael partner treisgar, ac mae 76% o'r achosion o ddynladdiad domestig yn digwydd ar ôl i bartneriaid wahanu v.
- Mae cam-drin domestig nad yw'n angheuol a stelcian hefyd yn parhau neu'n cynyddu ar ôl gwahanu i nifer o fenywod. Yn ôl Arolwg Troseddau Prydain, mae oddeutu 20% o'r digwyddiadau o gam-drin domestig yn cael eu profi ar ôl i'r berthynas ddod i ben vi.
- Mae 30% o'r achosion o gam-drin domestig yn dechrau neu'n cynyddu yn ystod beichiogrwydd vii.
- Pobl 16 – 24 oed sydd fwyaf mewn perygl o ddiodef cam-drin domestig viii.
- Mae cyfran sylweddol o'r cyflawnwyr hefyd yn camddefnyddio cyffuriau ac/neu alcohol, er bod ymchwil yn awgrymu nad yw'r rhan fwyaf o gyflawnwyr yn gaeth i gyffuriau nac yn alcoholigion. O'r rheiny sydd, mae tystiolaeth eu bod yn defnyddio ymddygiad camdriniol lawn cymaint os nad yn fwy pan eu bod yn sobor o'i gymharu â phan eu bod dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol ix.
- Yn 2002, roedd bron i dri chwarter o'r plant oedd â chynllun amddiffyn plentyn yn byw mewn aelwydydd lle mae cam-drin domestig yn digwydd x.
- Mewn perthnasoedd lle mae cam-drin domestig yn digwydd, mae plant yn tystio i tua thri chwarter y digwyddiadau. Mae tua hanner y plant mewn teuluoedd o'r fath wedi cael eu taro neu eu curo'n ddrwg eu hunain. Mae

cam-drin rhywiol ac emosiynol hefyd yn fwy tebygol o ddigwydd yn y teuluoedd hyn <sup>xi</sup>.

- Lle mae menyw'n cael ei cham-drin gan bartner gwrywaidd weithiau mae'r un partner sy'n cam-drin hefyd yn cam-drin plentyn yn gorfforol ac yn rhywiol. Mae amcangyfrifon o'r gorgyffyrddiad yn amrywio o 40-60% <sup>xii</sup>.
- Cam-drin domestig sy'n achosi 16% o'r achosion o ddigartrefedd <sup>xiii</sup>.
- Canfu archwiliad yn Greenwich fod 60% o ddefnyddwyr y gwasanaethau iechyd meddwl wedi profi cam-drin domestig, a chanfu arolwg ar wahân o fenywod sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl yn Leeds fod hanner y menywod wedi profi cam-drin domestig <sup>xiv</sup>.
- Canfu arolwg yn 2003 gan y BBC fod 29% o ddynion a 22% o fenywod yn teimlo bod cam-drin domestig yn dderbyniol dan rai amgylchiadau <sup>xv</sup>.
- Gall nifer o blant sy'n byw gyda cham-drin domestig fod mewn perygl o ddiodeff niwed sylweddol <sup>xvi</sup>.
- Roedd o leiaf 750,000 o blant yng Nghymru a Lloegr yn byw gyda cham-drin domestig <sup>xvii</sup>.
- Bu i astudiaeth o 2,869 o oedolion ifainc ddynodi bod 26% wedi tystio i drais rhwng eu rhieni o leiaf unwaith, ac i 5% roedd y trais yn digwydd yn aml ac yn barhaus <sup>xviii</sup>.
- Mae astudiaethau wedi canfod bod 85% ac 86% o oedolion wedi dynodi bod eu plant naill ai yn yr un ystafell neu mewn ystafell gyfagos yn ystod digwyddiad o gam-drin domestig <sup>xvix</sup>.
- Mae peryglon real iawn i blant sy'n agored i gam-drin domestig, a cheir amrywiad eang hefyd o ran plant yn tystio i'r trais neu'n ei glywed <sup>xx</sup>.
- Mae plant sy'n byw gyda cham-drin domestig hefyd yn fwy tebygol o ddiodeff camdriniaeth gorfforol neu rywiol uniongyrchol. Mae rhwng 30% a 66% o'r plant sy'n diodeff camdriniaeth gorfforol hefyd yn byw gyda sefyllfa o gam-drin domestig <sup>xxi</sup>.
- Caiff cam-drin domestig yn ystod beichiogrwydd ei ystyried yn fath o 'drais ac iddo ddau fwriad' <sup>xxii</sup>.
- Mae menywod sy'n feichiog yn diodeff anafiadau mwy helaeth i'w bronau a'u habdomen <sup>xxiii</sup>.
- Mae'r Ymchwiliad Cyfrinachol i Iechyd Mamau a Phlant yng Nghymru a Lloegr yn dynodi bod 30% o'r achosion o gam-drin domestig wedi dechrau yn ystod beichiogrwydd <sup>xxiv</sup>.
- Roedd menywod a ddiodeffodd gam-drin domestig yn ystod beichiogrwydd bedair gwaith yn fwy tebygol o gael camesgoriad na menywod na chawsant mo'u cam-drin <sup>xxv</sup>.
- Mae babanod sy'n byw gyda cham-drin domestig yn diodeff lefelau uchel o afiechyd, arferion cysgu gwael a sgrechian gormodol <sup>xxvi</sup>.

- Plant o oedran cyn-ysgol sy'n tueddu i fod y grŵp yr amharir fwyaf ar eu hymddygiad <sup>xxvii</sup>.
- Mae plant hŷn a phobl ifanc yn fwy tebygol o ddangos effeithiau amhariad yn eu hamgylcheddau yn yr ysgol ac yn gymdeithasol, yn enwedig os mai hwy yw'r rhai sy'n symud drwy'r amser <sup>xxviii</sup>.
- Gall traean o'r ymgeisiau i gyflawni hunanladdiad ymhlith menywod gael eu priodoli i brofiad presennol neu flaenorol o gam-drin domestig <sup>xxix</sup>, ac mae 50% o'r menywod o dras Asiaidd sydd wedi ceisio cyflawni hunanladdiad neu hunan-niwed yn oroeswyr cam-drin domestig. <sup>xxx</sup>.
- Canfu NCH fod plant sy'n byw gyda cham-drin domestig yn aml yn profi ymosodiad corfforol uniongyrchol, ac yn wir bod 10% wedi tystio i ymosodiad rhywiol yn erbyn y rhiant nad yw'n cam-drin <sup>xxxi</sup>.
- Mae'r mwyafrif o blant yn gwybod bod y rhiant nad yw'n cam-drin yn cael eu cam-drin, er bod rhieni nad ydynt yn cam-drin yn aml yn credu nad yw'r plant yn gwybod <sup>xxxii</sup>.
- Rhwng 1994 a 2004 cafodd 29 o blant mewn 13 o deuluoedd eu lladd o ganlyniad i drefniadau cyswllt <sup>xxxiii</sup>
- Wrth archwilio ffeiliau achos un o dimau'r NSPCC, mewn o leiaf draean o 111 o achosion a dderbyniwyd ar gyfer gwasanaeth (mewn perthynas â cham-drin plant) canfuwyd fod cam-drin domestig hefyd yn digwydd. Pan gyflwynodd yr ymchwilyr ffocws manylach ar gam-drin domestig fel rhan o'u gwaith, a oedd yn ei gwneud yn haws i blant siarad am gam-drin domestig, a chael eu clywed, cynyddodd y ganran hon i ddau draean <sup>xxxiv</sup>.
- Roedd rhieni nad ydynt yn cam-drin yn cael eu hystyried yn gyflawnwyr eilaidd, am fethu ag amddiffyn, hyd yn oed pan mai hwy oedd wedi atgyfeirio'r achos. Roedd dadgofrestru'n debygol o fod yn gyflym mewn achosion o drais domestig, er bod y rhiant nad yw'n cam-drin yn annhebygol o fod mewn sefyllfa i amddiffyn y plentyn <sup>xxxv</sup>.
- O'r 120 o hysbysiadau ynghylch marwolaeth neu anaf difrifol i blentyn a gyflwynir i'r Adran Iechyd bob blwyddyn, mae gan gyfran fawr o dadau a llystadau hanes o drais tuag at bartneriaid benywaidd <sup>xxxvi</sup>
- Canfu Arolwg Prydain Fawr o Gamdriniaeth Yn Erbyn Pobl Ifanc Yn Eu Harddegau yn 2005 fod cyswllt eglur rhwng menywod yn profi cam-drin domestig ac yn cael eu cam-drin gan eu cariadon. Mae'r arolwg yn nodi bod mwy o ferched yn eu harddegau yng Nghymru wedi cael eu gorfodi i gael rhyw nag yn unrhyw ran arall o'r DU <sup>xxxvii</sup>

Mae plant sy'n tystio i gam-drin domestig neu'n byw mewn amgylchedd lle mae cam-drin domestig yn digwydd yn dioddef camdriniaeth emosiynol a seicolegol<sup>13</sup>. Canfu astudiaeth o effeithiau uniongyrchol cam-drin domestig ar blant fod 35-50% o'r plant hynny mewn aelwydydd lle mae cam-drin domestig yn digwydd yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer anhwylderau emosiynol neu

---

<sup>13</sup> Adran 31 Deddf Plant 1989: nam a ddiodefyd o ganlyniad i weld neu glywed rhywun arall yn cael eu cam-drin (diwygiwyd gan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002)

ymddygiadol, a'u bod hefyd yn fwy tebygol o brofi iselder ac/neu anallu i gymysgu â'u cyfoedion<sup>14</sup>, o'i gymharu â 5-10% o'r plant nad ydynt yn agored i gam-drin domestig<sup>15</sup>. Mewn 90% o'r digwyddiadau treisgar o gam-drin domestig yn erbyn eu rhieni nad ydynt yn cam-drin, roedd plant yn yr un ystafell neu'r ystafell nesaf<sup>16</sup>.

## Cyfeiriadau

I Arolygon Troseddau Prydain (2003/04,2004/05,2005/06),  
<http://www.homeoffice.gov.uk/rds/bcs1.html>.

II yn yr un man

III yn yr un man

III Ystadegau ar ddynladdiad ar gyfer Cymru a Lloegr, o K. Coleman, K. Jansson, P. Kaiza, E. Reed, *Homicides, Firearm Offences and Intimate Violence 2005/2006* (2007) – Cyfrol Atodol 1 i *Crime in England and Wales 2005/2006*

IV Yr Heddlu Metropolitan, *Findings from the Multi-agency Domestic Violence Murder Reviews in London* (2003).

V S. Walby ac A. Myhil, 'Assessing and managing risk', yn J. Taylor-Browne, *What Works in Reducing Domestic Violence? A Comprehensive Guide for Professionals* (Llundain: Whiting & Birch, 2001).

VI "Why Mothers Die" (CEMACH, 2007)

VII Arolygon Troseddau Prydain (2003/04, 2004/05, 2005/06)

VIII C. Humphreys, L. Regan, a R.K. Thiara, *Domestic Violence and Substance Use: Overlapping Issues / Separate* (Y Swyddfa Gartref ac Awdurdod Llundain Fwyaf, Llundain, 2005)

IX Yr Adran Iechyd, 2002

X Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, 2004

XI S. Walby ac A. Myhil, 'Assessing and managing risk', yn J. Taylor-Browne, *What Works in Reducing Domestic Violence? A Comprehensive Guide for Professionals* (Llundain: Whiting & Birch, 2001); J. L. Edleson, The overlap between child maltreatment and woman battering. *Violence Against Women*, 5(2), t. 134 i 154 (1999); C. Humphreys a R. Thiara, *Routes to Safety: Protection issues facing abused women and children and the role of outreach services* (Women's Aid Federation of England: Bryste, 2002).

XII Ystadegau Digartrefedd: Medi 2002 a thrais domestig (Yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol, 2002)

XIII Janet Bowstead, *Mental health and domestic violence: Audit 1999* (Gweithgor Iechyd Meddwl Fforwm Trais Domestig Amlasiantaethol Greenwich, 2000)

XIV ReSisters, *Women speak out* (Leeds: ReSisters, 2002)

XV *Hitting home: domestic violence survey* (BBC, 2003)  
<http://news.bbc.co.uk/1/hi/uk/2753917.stm>

XVI Hester, M, Pearson, C a Harwin, N (2000) *Making an Impact: Children and Domestic Violence: A Reader*, Llundain: Jessica Kingsley Publishers

---

<sup>14</sup> Harold a Howarth 2004

<sup>15</sup> Holden 1998

<sup>16</sup> Stark a Flitcraft 1984 a Hughes "The Impact of Spouse Abuse on the Children of Battered Women" 1992

xvii Yr Adran Iechyd (2002) a Walby, S ac Allen, J (2004) *Domestic Violence, Sexual Assault and Stalking: Findings from the British Crime Survey*, Llundain: Astudiaeth Ymchwil y Swyddfa Gartref Rhif 276, Cyfarwyddiaeth Ymchwil, Datblygu ac Ystadegau'r Swyddfa Gartref

xviii Cawson, P (2002) *Child Maltreatment in the Family: The Experience of a National Sample of Young People*, Llundain: NSPCC

xix Abrahams, C (1994) *Hidden Victims: Children and Domestic Violence*, Llundain: NCH Gweithredu dros Blant a Brookoff D, O'Brien K, Cook C, Thompson, T a Williams, C (1997) Characteristics of Participants in Domestic Violence. Assessment at the Scene of Domestic Assault, *The Journal of the American Medical Association*, Cyf. 277, Rhif. 17, t.1369-1373

xx Hughes, H (1988) 'Psychological and Behavioural Correlates of Family Violence in Child Witnesses and Victims', *American Journal of Orthopsychiatry*, Cyf. 58, t.77-90

xxi Edleson, J (1999) 'Children Witnessing of Adult Domestic Violence', *Journal of Interpersonal Violence*, Cyf. 14, Rhif 4, t.839-70)

xxii Kelly, L (1994) 'The Interconnectedness of Domestic Violence and Child Abuse: Challenges for Research, Policy and Practice', yn Mullender, A a Morley, R (gol.) *Children Living With Domestic Violence*, Llundain: Whiting & Birch)

xxiii BMA (2007) *Domestic Abuse - A Report from the BMA Board of Science*, BMA: Llundain)

xxiv Lewis, Gwynneth, a Drife, James (2005) Why Mothers Die 2000-2002 – Adroddiad ar ymchwiliadau cyfrinachol i farwolaethau mamau yn y Deyrnas Unedig (CEMACH).

xxv Schornstien, S (1997) *Domestic Violence and Health Care*, Thousand Oaks, Ca:Sage

xxvi Jaffe, P, Wolfe, D a Wilson, S (1990) *Children of Battered Women*, Newbury Park, Ca: Sage

xxvii Hughes, H 'Psychological and Behavioural Correlates of Family Violence in Child Witnesses and Victims', *American Journal of Orthopsychiatry*, Cyf. 58, t.77-90

xxviii Mullender, A, Kelly, L, Hague, G, Malos, E ac Iman, U (2002) *Children's Perspectives on Domestic Violence*, Llundain: Routledge).

xxix Stark a Flitcraft *Women at risk: Domestic Violence and Women's Health* (Llundain: Sage, 1996); Audrey Mullender, *Rethinking domestic violence: The Social Work and Probation Response* (Llundain: Routledge, 1996)

xxx K. Chantler et al., *Attempted suicide and self-harm: South Asian women* (Manceinion: Canolfan Ymchwil Astudiaethau Menywod, Prifysgol Fetropolitan Manceinion, 2001); Prosiect Menywod Asiaidd Newham, *Young Asian Women and Self-harm: A mental health needs assessment of young Asian women in East London* (Llundain: Newham Inner City Multifund a NAWP, 1998)

xxxi Cartref Cenedlaethol y Plant, Action for Children and Domestic Abuse, 2002

xxxii The Hidden Victims, NCH 1994

xxxiii Saunders, H. (2004) Twenty Nine Child Homicides: Lessons still to be learnt on domestic violence and child protection, WAFE. Crynodeb gweithredol a'r adroddiad llawn ar gael ar wefan Cymorth i Fenywod

xxxiv Hester a Pearson, From Periphery to Centre, 1998

xxxv Farmer ac Owen, 1995

xxxvi O'Hara, M (1994) Child Deaths in the context of domestic violence: implications for professional practice in Mullender, A. a Morley R. (gol.) Children living with Domestic Violence, Llundain: Whiting & Birch

xxxvii [www.nspcc.org.uk](http://www.nspcc.org.uk)

## Atodiad 2: Enghreifftiau o ymddygiad camdriniol

- Camdriniaeth seicolegol / emosynol – dychrynu a bygythiadau (e.e. ynghylch plant neu anifeiliaid anwes y teulu), arwahanrwydd cymdeithasol, cam-drin geiriol, bychanu, beirniadu cyson, gorchwylion dibwys yn cael eu gorfodi, ymwithgarwch gormodol amlwg.
- Trais corfforol – slapio, gwthio, cicio, trywanu, llosgi/sgaldio, difrod i eiddo neu eitemau o werth sentimental, ymgais i lofruddio neu lofruddiaeth;
- Cyfyngu'n gorfforol ar ryddid – rheoli pwy y mae'r rhiant nad yw'n cam-drin neu'r plentyn/plant yn eu gweld neu ble maent yn mynd, beth maent yn ei wisgo neu'n ei wneud, stelcian, carcharu, priodas dan orfod;
- Trais rhywiol – unrhyw weithgaredd rhywiol heb gydsyniad, gan gynnwys treisio, ymosodiad rhywiol, gweithgaredd rhywiol a orfodir neu wrthod rhyw diogelach; a hefyd
- Cam-drin ariannol – dwyn, amddifadu o arian neu gymryd rheolaeth ar arian, cronni dyledion, cuddio llyfrau budd-daliadau neu gardiau banc.

### **Atodiad 3: Teuluoedd sy'n agored i niwed mewn ffyrdd ychwanegol**

Dylai'r holl weithwyr proffesiynol ddeall y materion canlynol y gall plant a'u rhieni nad ydynt yn cam-drin eu hwynebu, a chymryd y rhain i ystyriaeth wrth geisio'u helpu:

- **Diwylliant:** mae'r diwylliant ymhlith rhai cymunedau'n golygu ei bod yn aml yn anos i fenywod gyfaddef bod ganddynt broblemau priodasol. Y rheswm dros hyn yw bod pobl yn aml yn meddwl mai bai'r fenyw yw bod priodas wedi methu, a bydd yn cael ei beio am danseilio anrhydedd y teulu. Mewn rhai diwylliannau, efallai nad yw menyw mewn sefyllfa i gael ysgariad oddi wrth ei gŵr. Os nad yw'r gŵr yn dymuno cydymffurfio â hyn, gall beidio â rhoi ysgariad crefyddol i'w wraig.
- **Statws mewnfudo:** gall fod gan blant a'u mamau statws mewnfudo ansicr, a allai eu hatal rhag cael mynediad at wasanaethau. Lle nad yw pobl yn cael hawlio arian cyhoeddus, dylid rhoi ystyriaeth i atgyfeirio at Wasanaethau Plant yr ALI dan Adran 17 o Ddeddf Plant 1989. Gall y fam hefyd fod yn betrus ynghylch gweithredu yn erbyn ei phartner am ei bod yn ofni colli ei hawl i aros yn y DU. Mewn rhai achosion, mae partneriaid neu deulu estynedig wedi bygwth alltudio menywod os ydynt yn hysbysu ynghylch cam-drin domestig ac wedi cymryd eu pasbortau oddi arnynt.  
Yn yr un modd, efallai fod pasbortau plant wedi cael eu cymryd oddi arnynt ac efallai eu bod yn ofni y gallant hwy ac/neu eu mam gael eu halltudio os byddant yn datgelu achos o gam-drin domestig yn y teulu.
- **Iaith / llythrennedd:** gall plant a'r rhiant nad yw'n cam-drin wynebu her ychwanegol wrth geisio ymgysylltu â gwasanaethau pan nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Wrth weithio gyda'r plant a'r teuluoedd hyn, dylai gweithwyr proffesiynol ddefnyddio cyfieithwyr proffesiynol sydd wedi cael gwiriad clir gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol; nid yw'n dderbyniol defnyddio aelod o'r teulu neu gyfaill, a dylid hefyd osgoi aelodau o'r rhwydwaith cymunedol estynedig lle bynnag y bo'n bosib.
- **Llety dros dro:** mae nifer o deuluoedd yn byw mewn llety dros dro. Pan fo teulu'n symud yn aml, gall fod yn wynebu tloedi cronig, arwahanrwydd cymdeithasol, hiliaeth neu fathau eraill o wahaniaethu a'r problemau sy'n gysylltiedig â byw mewn ardaloedd difreintiedig neu mewn llety dros dro. Gall y teuluoedd hyn fod wedi ymddieithrio oddi wrth, neu wedi methu ag ymgysylltu â gwasanaethau iechyd, addysg, gofal cymdeithasol, lles a systemau cymorth personol a chymdeithasol
- **Anabledd:** gall plant ac/neu rieni nad ydynt yn cam-drin sydd ag anabledau fod yn arbennig o agored i niwed mewn sefyllfaoedd lle mae'r camdrinydd hefyd yn gweithredu fel eu prif ofalwr, a gall rhai ffoaduriaid fod heb gyfleusterau priodol i ymateb i'w hanghenion penodol. Mae Arolwg Troseddau Prydain yn gyson yn dangos bod pobl anabl yn llawer mwy tebygol o brofi cam-drin domestig na phobl nad ydynt yn anabl. Mae rhai Llochesi'n darparu cyfleusterau arbenigol ar gyfer pobl anabl gyda chymorth.
- **Eithrio cymdeithasol:** gall plant a'u teuluoedd fod yn agored i niwed mewn ffyrdd ychwanegol hefyd o ganlyniad i eithrio cymdeithasol. Mae Arolwg Troseddau Prydain yn dynodi bod pobl sydd ar hyn o bryd ar incwm isel ac/neu nad ydynt yn berchen ar eu cartref eu hunain yn fwy tebygol na'r rheiny ar incwm uwch ac/neu berchentywyr i fod wedi profi digwyddiadau o drais domestig. Gall hyn gynnwys menywod sydd ddim yn cael hawlio arian cyhoeddus. Gall pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol hefyd fod yn arbennig o agored i niwed, a gall materion megis cywilydd, gwarthnod, methu ag ymddiried mewn awdurdod (yn enwedig yr heddlu), ofn bod plant yn mynd i gael eu cymryd oddi arnynt oherwydd stereoteipio anghywir, datgelu natur hoyw ac ati arwain at guddio a pheidio â hysbysu ynghylch y gamdriniaeth / trais. Mae materion hefyd sy'n ymwneud â llochesi diogel i bobl drawsryweddol a'u plant, ac efallai nad yw rhai llochesi i fenywod yn derbyn dynion.
- **Beichiogrwydd:** dylid cydnabod fod unigolyn yn dod yn fwy agored i niwed yn ystod beichiogrwydd ac y dylai risgiau gael eu hystyried yn ofalus (gweler 3.2).

- **Dirwasgiad economaidd:** gall fod yn berthnasol ystyried pwysau ariannol ychwanegol.

Gweler hefyd Adran 4 Amddiffyn Plant mewn Amgylchiadau Penodol yng *Ngweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008*.



## Atodiad 4: Cyfathrebu gyda phlentyn

### I'W DDEFNYDDIO GYDA GWEITHWYR PROFFESIYNOL SYDD WEDI ENNILL CYMWYSTERAU A DERBYN HYFFORDDIANT ADDAS YN UNIG

Wrth siarad gyda a gwranddo ar blentyn am gam-drin domestig dylai gweithwyr proffesiynol wneud y canlynol:

- Peidio byth ag addo cyfrinachedd llwyr – eglurwch eich cyfrifoldebau; os byddwch yn pryderu nad ydynt yn ddiogel, y bydd angen i chi ddweud wrth rywun arall.
- Addo rhoi gwybodaeth gyson i'r plentyn am yr hyn sy'n digwydd;
- Rhoi amser i'r plentyn siarad ac amser i chi eich hun ddeall y sefyllfa o safbwynt y plentyn;
- Siarad mewn ffordd syml ac eglur, gan ddefnyddio iaith sy'n briodol i oedran y plentyn;
- Annog y plentyn i siarad gyda'r rhiant nad yw'n cam-drin am eu profiad – fel y bo'n briodol;
- Pwysleisio nad bai'r plentyn yw'r gamdriniaeth;
- Gadael i'r plentyn wybod nad ef/hi yw'r unig blentyn sy'n profi hyn;
- Sicrhau bod y plentyn yn deall nad eu cyfrifoldeb hwy yw amddiffyn y rhiant nad yw'n cam-drin, gan ddilysu pryder y plentyn ac unrhyw gamau gweithredu y gall eu bod wedi'u cymryd i amddiffyn y rhiant nad yw'n cam-drin;
- Peidio â chymryd yn ganiataol y bydd y plentyn yn casáu'r partner sy'n cam-drin, gan ei bod yn debygol y bydd yn syml yn casáu'r ymddygiad;
- Caniatáu i'r plentyn fynegi'u teimladau am yr hyn y maent wedi'i brofi;
- Cydnabod y bydd plant wedi datblygu'u strategaethau ymdopi eu hunain i ymdrin ag effaith cam-drin domestig. Gall rhai o'r rhain fod yn negyddol yn y tymor hirach i'r plentyn, ond lle maent yn gadarnhaol dylid tynnu arnynt i ddatblygu strategaethau diogelwch ar gyfer y dyfodol;
- Peidio â chymryd yn ganiataol y bydd y plentyn yn eu hystyried eu hunain fel rhywun sy'n cael eu cam-drin;
- Peidio â bychanu'r gamdriniaeth;
- Rhoi gwybodaeth i'r plentyn am ffynonellau cyngor a chymorth y bydd o bosib am eu defnyddio.

## Atodiad 5: Cwestiynau o esboniad i riant nad yw'n cam-drin

### I'W DEFNYDDIO GYDA GWEITHWYR PROFFESIYNOL SYDD WEDI ENNILL CYMWYSTERAU A DERBYN HYFFORDDIANT ADDAS YN UNIG

Fel arfer mae gormod o ofn ar rieni nad ydynt yn cam-drin neu maent yn rhy anghysurus i godi pwnc cam-drin domestig eu hunain. Felly byddwch yn barod i ofyn y cwestiynau canlynol yn sensitif, ond mewn modd uniongyrchol:

- Allwch chi ddweud wrtha i beth sydd wedi bod yn digwydd?
- Rydych chi i'ch gweld wedi cynhyrfu, ydy popeth yn iawn gartref?
- Oes ofn rhywun / rhywbeth arnoch?
- Oes rhywun wedi eich brifo?
- Ai trwy gael eich taro y cawsoch chi'r anafiadau yna?
- Ydych chi mewn perthynas lle'r ydych chi wedi cael eich brifo'n gorfforol neu eich bygwth gan eich partner?
- Ydych chi erioed wedi bod mewn perthynas o'r fath?
- Ydych chi weithiau'n teimlo bod eich partner neu bobl eraill yn eich cartref yn codi ofn arnoch?
- Ydych chi (neu ydych chi erioed wedi bod) mewn perthynas lle'r ydych yn teimlo eich bod yn cael eich trin yn wael? Ym mha ffyrdd?
- Ydy eich partner wedi dinistrio pethau sydd o bwys i chi?
- Ydy eich partner erioed wedi bygwth niweidio eich teulu? Ydych chi'n credu y byddai?
- Beth sy'n digwydd pan fyddwch chi a'ch partner yn anghytuno?
- Ydy eich partner erioed wedi eich atal rhag gadael y tŷ, gweld ffrindiau, cael swydd neu barhau mewn addysg?
- Ydy eich partner yn cyfyngu ar eich mynediad at arian neu fynediad at eich Budd-dal Plant neu lwfansau?
- Ydy eich partner erioed wedi eich taro, eich dyrnu, eich gwthio neu eich slapio?
- Ydy eich partner erioed wedi eich bygwth ag arf?
- Ydy eich partner yn defnyddio cyffuriau neu alcohol yn ormodol? Os felly, sut mae'n ymddwyn ar yr adegau hyn?
- Fyddwch chi weithiau'n teimlo bod rhaid i chi droedio'n ofalus o gwmpas eich partner?
- Ydy'r heddlu erioed wedi cael eu galw?
- Ydych chi erioed wedi cael eich brifo'n gorfforol mewn unrhyw ffordd tra'r oeddech chi'n feichiog?
- Ydy eich partner erioed wedi bygwth gwneud niwed i'r plant? Neu fynd â hwy oddi arnoch?

## Atodiad 6: Cynllunio diogelwch gyda phartneriaid nad ydynt yn cam-drin<sup>17</sup>

### I'W DDEFNYDDIO GYDA GWEITHWYR PROFFESIYNOL SYDD WEDI ENNILL CYMWYSTERAU A DERBYN HYFFORDDIANT ADDAS YN UNIG

Trwy godi pwnc cam-drin domestig, rydym yn creu cyfleoedd i archwilio ffyrdd y gall partneriaid nad ydynt yn cam-drin a phlant fod yn ddiogel. Mae cynllun diogelwch yn ffordd led-strwythuredig o feddwl am gamau y gellir eu cymryd i leihau risg cyn, yn ystod ac ar ôl unrhyw ddigwyddiadau treisgar neu gamdriniol. Mae'n bwysig pwysleisio, er y gall cynllun diogelwch leihau'r risgiau o gam-drin, na allant warantu diogelwch partneriaid nad ydynt yn cam-drin a phlant yn llwyr.

**Ni ddylai partneriaid nad ydynt yn cam-drin gadw'r cynllun diogelwch hwn mewn man lle gallai gael ei ddarganfod gan y partner sy'n cam-drin. Erfyn yw hwn i roi cymorth gydag arfer da a gellir ei addasu fel y bo'r angen.**

#### Datblygu cynllun diogelwch

Bydd gan bartneriaid nad ydynt yn cam-drin sy'n profi cam-drin domestig eisoes strategaethau goroesi y maent yn eu cael yn effeithiol. Mae'n hanfodol cydnabod y rhain a'u defnyddio fel arweiniad ar gyfer eich gwaith. Mae a wnelo cynllun diogelwch â galluogi partneriaid nad ydynt yn cam-drin i adnabod y dewisiadau sydd ar gael iddynt yng nghyd-destun eu hamgylchiadau presennol. Rhai cwestiynau i'w gofyn wrth lunio cynllun diogelwch:

- Wrth bwy allwch chi ddweud am y gamdriniaeth heb iddo/iddi ddweud wrth eich partner/cyn-bartner?
- Oes gennych chi rifau ffôn pwysig ar gael, e.e. teulu, ffrindiau, llochesi, yr heddlu? Ydy eich plant yn gwybod sut i gysylltu â'r bobl hyn?
- Pe baech chi'n gadael, i ble allech chi fynd?
- Fyddwch chi weithiau'n amau pryd mae eich partner yn mynd i'ch cam-drin? e.e. ar ôl yfed, pan ei fod wedi derbyn ei gyflog, ar ôl i berthnasau ymweld
- Pan fyddwch chi'n amau eu bod yn mynd i'ch cam-drin allwch chi fynd i rywle arall?
- Allwch chi gadw bag o ddillad sbâr yn nhŷ ffrind neu aelod o'r teulu?
- Ydych chi'n gallu cadw copiâu o unrhyw bapurau pwysig gydag unrhyw un arall? e.e. pasbort, tystysgrifau geni, llyfr budd-daliadau.
- Ym mha ran o'r tŷ ydych chi'n teimlo fwyaf diogel?
- Oes rhywle y gall eich plant fynd pan fo'r partner yn eich cam-drin (peidiwch chi â rhedeg i'r lle y mae'r plant gan y gallai eich partner wneud niwed iddynt hwy hefyd)?
- Pa ran o'r tŷ yw'r lle mwyaf peryglus i fod pan fo'ch partner yn eich cam-drin?

<sup>17</sup> Wedi'i addasu o Becyn Cymorth Prosiect Stella *Domestic Violence, Drugs and Alcohol*.

- Ydych chi wedi trafod cynllun diogelwch gyda'ch plant sy'n nodi'r hyn y mae angen iddynt hwy ei wneud yn ystod digwyddiad (peidio ag ymyrryd, dianc a cheisio cymorth)?

### **Cynllun diogelwch personol ar gyfer partneriaid nad ydynt yn cam-drin?**

Mae'r cynllun diogelwch hwn wedi cael ei addasu o amrywiaeth o gynlluniau presennol. Dylai gael ei ddefnyddio gyda phartneriaid nad ydynt yn cam-drin sy'n dianc rhag cam-drin domestig. Cofiwch efallai nad yw'n ddiogel i bartneriaid nad ydynt yn cam-drin lenwi'r cynllun a mynd ag ef gyda hwy. Dylech wastad gynnig cadw unrhyw wybodaeth neu ddogfennaeth ar eich safle chi. Efallai y bydd asiantaethau cyffuriau ac alcohol yn dymuno gofyn cwestiynau ychwanegol ynghylch sut y mae eu harferion camddefnyddio sylweddau hwy neu eu partner yn effeithio ar y cam-drin domestig y maent yn ei brofi. Mae llai o wasanaethau i ddioddefwyr gwrywaidd ar hyn o bryd.

### **Awgrymiadau ar gyfer cynyddu diogelwch – Yn y berthynas**

- Bydd rhifau ffôn pwysig ar gael gen i ar gyfer fy mhlant a fi fy hun.
- Gallaf ddweud wrth.....a/ac  
.....  
am y gamdriniaeth a gofyn iddynt ffonio'r heddlu os byddant yn clywed synau amheus yn dod o'm cartref.
- Os bydd fy mhlant yn cael eu brifo, byddaf yn dweud wrth.....  
.....
- Os byddaf yn gadael fy nghartref, gallaf fynd i (rhestrwch bedwar lle):  
.....neu.....  
..... neu.....
- Gallaf adael arian, allweddi car, dillad ychwanegol, a chopïau o ddogfennau gyda.....
- Pan fyddaf yn gadael, byddaf yn dod â.....
- I sicrhau diogelwch ac annibyniaeth, gallaf: gadw newid ar gyfer galwadau ffôn arnaf bob amser / cadw fy ffôn symudol arnaf bob amser; agor fy nghyfrif cynilion fy hun; ymarfer fy llwybr dianc gyda pherson cymorth; ac adolygu'r cynllun diogelwch ar .....(dyddiad).
- Pan fydd y cam-drin yn dechrau, pa rannau o'r tŷ ddylwn i eu hosgoi? e.e. ystafell ymolchi (dim ffordd allan), y gegin (arfau posib)  
.....

### **Awgrymiadau ar gyfer cynyddu diogelwch – pan fo'r berthynas drosodd**

- Gallaf: newid y cloeon; gosod drysau dur/metel, system ddiogelwch, synwryddion mwg a system oleuadau y tu allan.

- Byddaf yn rhoi gwybod i.....  
a/ac .....  
nad yw fy mhartner yn byw gyda mi mwyach ac yn gofyn iddynt ffonio'r heddlu os byddant yn eu gweld yn agos at fy nghartref neu fy mhlant.
- Byddaf yn hysbysu pobl sy'n gofalu am fy mhlant, a'r plant eu hunain, ynghylch enwau'r rheiny sydd â chaniatâd i'w casglu. Y bobl sydd â chaniatâd yw:.....  
a/ac.....
- Pan fyddaf yn gwneud galwadau ffôn gallaf ddefnyddio 141 fel na ellir olrhain fy rhif.
- Gallaf ddweud wrth..... yn y gwaith am  
fy sefyllfa a gofyn i ..... sgrinio fy ngalwadau.
- Gallaf osgoi siopau, banciau, a/ac.....  
yr oeddwn yn eu defnyddio pan oeddwn yn byw gyda'r partner oedd yn fy ngham-drin.
- Os byddaf yn teimlo'n isel ac yn barod i ddychwelyd at sefyllfa a allai fod yn  
gamdriniol, gallaf ffonio.....  
i fod yn gefn i mi.

### **Rhifau ffôn pwysig**

Heddlu..... Llinell Gymorth.....

Ffrindiau..... Lloches.....

### **Rhestr wirio o eitemau i fynd gyda mi**

- Manylion Adnabod
- Tystysgrifau geni ar fy nghyfer i ac ar gyfer fy mhlant
- Llyfrau budd-daliadau
- Cardiau meddygol ar fy nghyfer i ac ar gyfer fy mhlant (e.e. "llyfrau coch" y plant, cofnodion imiwneiddio o'r ysgol ac ati)
- Cerdyn ffôn, ffôn symudol neu newid ar gyfer ffôn talu
- Arian, llyfrau banc, cardiau credyd
- Allweddi – tŷ / car / swyddfa
- Allweddi i dŷ ffrind neu berthynas
- Moddion neu feddyginiaeth ar fy nghyfer i ac ar gyfer fy mhlant
- Trwydded yrru
- Dillad i newid iddynt ar fy nghyfer i ac ar gyfer fy mhlant

- Pasbort(au), Papurau'r Swyddfa Gartref, trwyddedau gwaith, rhifau yswiriant gwladol
- Papurau ysgariad a gorchmynion cyfreithiol
- Cytundeb prydlesu / rhentu, gweithredoedd y tŷ
- Llyfr talu morgais, biliau sydd heb eu talu ar hyn o bryd
- Papurau yswiriant
- Llyfr cyfeiriadau
- Lluniau, gemwaith, eitemau o werth sentimental
- Hoff deganau ac/neu blancedi'r plant
- Unrhyw brawf o gam-drin, nodiadau, tapiau, dyddiadur, cyfeirnodau troseddau, enwau a rhifau gweithwyr proffesiynol sy'n gwybod.

## ATODIAD 7: Gweithio gyda'r partneriaid sy'n cam-drin

### 1. Gofyn cwestiynau

Gallai ymatebion ymarferydd sydd wedi cael hyfforddiant priodol i unrhyw ddatgeliad, ni waeth pa mor anuniongyrchol, fod yn arwyddocaol ar gyfer annog partner sy'n cam-drin i gymryd cyfrifoldeb a'u cymell i newid.

Os yw'r partner sy'n cam-drin yn eu cyflwyno'u hunain gyda phroblem megis yfed, straen neu iselder, er enghraifft, ond yn peidio â chyfeirio at eu hymddygiad camdriniol, mae'r rhain yn gwestiynau defnyddiol i'w gofyn:

- Sut mae'r yfed / straen yn y gwaith / iselder yn effeithio ar y ffordd yr ydych gyda'ch teulu?
- Pan fyddwch chi'n teimlo felly, beth fyddwch chi'n ei wneud?
- Pan fyddwch chi'n teimlo felly, sut fyddwch chi'n ymddwyn?
- Ydych chi'n canfod eich bod yn gweiddi / dinistrio pethau?
- Fyddwch chi weithiau'n teimlo'n dreisgar/yмосodol tuag at berson arbennig?
- Mae'n swnio fel eich bod yn dymuno gwneud newidiadau er eich lles chi ac er lles eich partner / plant. Pa ddewisiadau sydd gennych? Beth allwch chi ei wneud am y peth? Pa help fydddech chi'n hoffi ei gael i'ch cynorthwyo i wneud y newidiadau hyn?

Os bydd camdrinydd yn ymateb yn agored i'r cwestiynau anogaeth hyn, gallai cwestiynau mwy uniongyrchol sy'n ymwneud â ffactorau sy'n cynyddu'r risg fod yn briodol:

- Mae'n swnio fel bod eich ymddygiad yn gallu codi ofn. Beth sy'n digwydd pan fyddwch yn mynd yn flin/grac gyda'ch partner neu eich teulu? Fyddwch chi'n gweiddi o gwbl? Ydych chi erioed wedi codi ofn ar eich partner ac/neu eich plant?
- Ydych chi erioed wedi taro eich partner, neu wedi eu gwthio o gwmpas? Pa ddulliau cam-drin (penodol) ydych chi wedi'u defnyddio? Pryd oedd y tro cyntaf y gwnaethoch gyffwrdd â'ch partner mewn dicter? Beth yw'r peth gwaethaf yr ydych chi wedi'i wneud mewn dicter? Ydych chi erioed wedi ymosod ar eich partner neu eu bygwth gyda chylllell neu arf arall? Beth oedd y trais/digwyddiad o gam-drin mwyaf diweddar?
- Sut mae hyn yn effeithio ar y plant? Ydych chi wedi cam-drin / ymosod ar eich partner o flaen y plant? Oedden nhw'n bresennol yn y tŷ?
- Ydy'r heddlu erioed wedi cael eu galw i'r tŷ oherwydd eich ymddygiad/ gweithredoedd?

- Ydych chi'n teimlo'n anhapus bod eich partner yn gweld ffrindiau neu deulu – fyddwch chi byth yn ceisio'u hatal? A wnaeth eich ymddygiad newid/ydy eich ymddygiad wedi newid tuag at eich partner yn ystod beichiogrwydd?
- Beth sy'n eich poeni fwyaf am eich ymddygiad? Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw batrymau – ydy'r cam-drin yr ydych yn ei wneud yn mynd yn waeth neu'n fwy aml? Sut ydych chi'n meddwl y mae alcohol neu gyffuriau'n effeithio ar eich ymddygiad?

Yr wybodaeth y byddwch chi'n ei chasglu fydd y sail i'ch asesiad o ran y ffordd orau o reoli'r materion risg a gyflwynir a pha fath o ymyriad y mae'i angen – i leihau'r risg a gwella'r cynllun diogelwch ar gyfer partneriaid.

## 2. Ymateb i ddatgeliadau gan bartneriaid sy'n cam-drin-

### CANLLAWIAU ARFER DA

- Byddwch yn glir bod cam-drin domestig wastad yn annerbyniol;
- Byddwch yn glir mai dewis yw ymddygiad camdriniol;
- Cadarnhewch unrhyw atebolrwydd a ddangosir gan y partner sy'n cam-drin;
- Dangoswch barch ac empathi ond peidiwch â chydgyllwynio;
- Byddwch yn gadarnhaol, gan fod partneriaid sy'n cam-drin yn gallu newid;
- Peidiwch â gadael i'ch teimladau chi tuag at yr ymddygiad camdriniol ymyrryd â'ch rôl fel un sy'n darparu gwasanaeth cefnogol;
- Defnyddiwch iaith syml; dylech osgoi jargon;
- Byddwch yn glir ynghylch asesu'r risg i'r plant a chanlyniadau hyn pe bai'r cam-drin yn parhau;
- Byddwch yn glir iawn bod profiadau a byw gyda cham-drin domestig wastad yn effeithio ar blant, pa un a ydynt yn tystio iddo'n uniongyrchol ai peidio;
- Byddwch yn glir yn y neges bod a wnelo cam-drin domestig ag ystod o fathau o ymddygiad camdriniol, nid dim ond trais corfforol (gweler y diffiniad);
- Byddwch yn ymwybodol y bydd bychanu, cyfiawnhau a bai oll yn rhan annatod o barhad yr ymddygiad camdriniol mewn perthnasoedd.
- Nid yw ymddygiad camdriniol wedi'i gyfyngu i un berthynas. Mae ymchwil wedi dangos y bydd yn parhau mewn perthnasoedd dilynol.
- Byddwch yn ymwybodol o'r rhwystrau i gydnabod achos o gam-drin a cheisio help (h.y. cywilydd, ofni'r broses amddiffyn plant, hunangyfiawnhau'r dichter);
- Byddwch yn glir ynghylch canlyniadau cam-drin parhaus – cyhuddiadau troseddol, colli'r partner, teulu, ffrindiau, colli rhyddid ac ati.

## 3. Rheoli risgiau gyda phartneriaid sy'n cam-drin



Lle mae'r rhiant nad yw'n cam-drin yn dynodi eu bod yn dymuno cynnwys y partner sy'n cam-drin yn eu bywyd hwy ac ym mywyd y plentyn, dylid ystyried yr ymyriad priodol, a allai gynnwys atgyfeirio at raglen addas i gyflawnwyr. Mae'n rhaid i unrhyw waith gynnwys cynllunio diogelwch ac mae'n rhaid i gynlluniau diogelwch ar gyfer partneriaid a phlant gael eu trafod yn annibynnol.

Pan fo'r partner sy'n cam-drin yn dynodi eu bod yn pryderu ynghylch yr ymddygiad, a'u bod yn barod i gymryd cyfrifoldeb am yr angen i newid, yna mae'n rhaid i gynlluniau diogelwch partneriaid gael eu cytuno'n annibynnol cyn i'r rhaglen gychwyn. Gallai hyn ddigwydd mewn sefyllfaoedd lle mae'n debygol y bydd oedi cyn dechrau gwaith o'r fath; ni ddylid ond ymgymryd â hyn ar ôl ymgynghori â'r asiantaeth sy'n cynnig y rhaglen i gyflawnwyr.

Yn ogystal â hynny, cyn ymgymryd ag unrhyw waith cynllunio diogelwch / rheoli risg gyda phartner sy'n cam-drin, dylai gweithwyr proffesiynol sicrhau bod y partner yn ymwybodol o'r hyn sy'n cael ei gynnig, a bod hyder na fydd gwaith o'r fath yn peryglu diogelwch. I gydymffurfio ag arfer gorau dylid rhoi cymorth annibynnol ar wahân i bartneriaid mewn perthnasoedd camdriniol.

Wrth atgyfeirio partneriaid sy'n cam-drin at raglenni i gamdrinwyr, dylai asiantaethau fod wedi'u hargyhoeddi ynghylch ansawdd a phriodoldeb y rhaglen. Dylai rhaglenni i gamdrinwyr wastad gael eu hintegreiddio â gwasanaethau cymorth cysylltiedig ac â gwasanaethau amddiffyn plant arbenigol. Gall partneriaid sy'n cam-drin gael eu hatgyfeirio at wasanaethau amddiffyn plant arbenigol hefyd (e.e. gweithio gyda phlant sydd â chynlluniau amddiffyn plant a'u teuluoedd).

e.e. – IDAP – Rhaglen C. D. Integredig	}	Rhaglen
CDVP – Rhaglen Trais Domestig Gymunedol}	}	Cyfiawnder
	}	Troseddol

Tadau sy'n Gofalu - NSPCC	}	- Rhaglen
Dewis Newid - Relate	}	Wirfoddol

## **Atodiad 8: Trais seiliedig ar anrhydedd (gan gynnwys priodas dan orfod ac enwaedu benywod)**

### **Trais seiliedig ar anrhydedd (gan gynnwys priodas dan orfod ac enwaedu benywod)**

Gall plant a phobl ifanc ddioddef cam-drin domestig a gyflawnir er mwyn eu gorfodi i briodi neu i'w cosbi am 'ddwyn anfri ar y teulu'.

Er y gall trais seiliedig ar anrhydedd ddiweddu â marwolaeth y dioddefydd/goroesydd, nid yw hyn wastad yn wir. Gall y plentyn neu berson ifanc ddioddef amrywiaeth o wahanol fathau o ymddygiad troseddol dros gyfnod hir a'r rheiny'n amrywio o ran difrifoldeb. Mae'r gamdriniaeth yn aml yn cael ei chyflawni gan sawl aelod o deulu a gall felly gynyddu ymdeimlad y plentyn o fod yn ddi-rym a gall fod yn anos i weithwyr proffesiynol ei hadnabod ac ymateb iddi. Felly'r argymhelliad yw y dylai pobl geisio cyngor brys mewn perthynas â chais am ganiatâd amhenodol i aros.

(Cydnabyddir fod hwn yn fater sy'n dal i fod yn destun pryder ac yn faes polisi cyhoeddus sydd heb ei ddatrys)

Ystyr trais seiliedig ar anrhydedd yw trosedd neu ddigwyddiad sydd wedi neu a all fod wedi cael ei gyflawni i warchod neu amddiffyn anrhydedd y teulu ac/neu'r gymuned. Nid math o drais ydyw ond y rheswm neu'r cymhelliad a roddwyd neu y tybir ei fod yn gyfrifol am ddefnyddio trais. Mae'n dramgwydd sylfaenol yn erbyn hawliau dynol, a dylid ei ystyried yn fater sy'n ymwneud ag amddiffyn plant.

Mae'n amlygu ei hun mewn ystod amrywiol o ffyrdd ac yn cynnwys priodas dan orfod ac enwaedu benywod.

Y diffiniad o briodas dan orfod a dderbynnir gan Lywodraeth EM ac asiantaethau statudol eraill yw "priodas a gynhaliwyd heb gydsyniad dilys un parti neu'r ddau barti lle mae gorfodaeth yn ffactor".

Mae priodas dan orfod yn groes i gyfraith y DU (Deddf Achosion Priodasol 1973).

Deddf Priodas dan Orfod (Amddiffyn Sifil) 2007

Mae enwaedu benywod hefyd yn groes i gyfraith y DU (Deddf Enwaedu Benywod 2004).

Mae trais seiliedig ar anrhydedd yn perthyn i fframwaith ehangach trais yn erbyn menywod er ei fod hefyd yn cynnwys dioddefwyr/goroeswyr gwrywaidd. Er y gall berthyn i fframwaith cam-drin domestig gan fod llawer o'r trais yn cael ei gyflawni i ddechrau gan bartneriaid agos a'r teulu agosaf, gall trais pellach gael ei achosi gan deulu estynedig ac aelodau o'r gymuned sy'n cefnogi gweithredoedd y teulu neu'n cydgynllwynio yn y trais, neu'n cyflawni'r trais ar ran y teulu.

Mae nifer nodedig o ddioddefwyr mewn achosion o drais seiliedig ar anrhydedd a phriodas dan orfod yr hysbysir yn eu cylch yn y DU dan 18 oed.

Fel gydag oedolion, mae trais seiliedig ar anrhydedd yn amlygu ei hun mewn ystod amrywiol o ffyrdd gyda phlant a phobl ifanc gan gynnwys priodas dan orfod, treisio, ymosodiadau corfforol, cipio, bygythiadau o drais (gan gynnwys llofruddiaeth), enwaedu benywod neu dystio i drais wedi'i gyfeirio at sibling neu aelod arall o'r teulu.

Mae enwaedu benywod yn digwydd bron yn llwyr i ferched dan 18 oed a gall arwain at anafiadau corfforol a seicolegol difrifol.

Mae hyn yn amlygu trais seiliedig ar anrhydedd fel mater sy'n ymwneud ag amddiffyn plant lle mae plant mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol trwy gamdriniaeth gorfforol, rywiol, seicolegol ac emosiynol.

Mae trais seiliedig ar anrhydedd, gan gynnwys priodas dan orfod ac enwaedu benywod, yn cael ei gyflawni yn erbyn oedolion a phlant am nifer o resymau gan gynnwys:

- Rheoli ymddygiad nas dymunir a rhywioldeb (gan gynnwys amlgymharaeth ganfyddedig; bod yn hoyw, lesbiaidd, deurywiol neu drawsryweddol)
- Amddiffyn anrhydedd teulu
- Ymateb i bwysau gan y teulu, y gymuned neu'r grŵp cymheiriaid
- Cryfhau cysylltiadau teuluol
- Amddiffyn delfrydau diwylliannol ac/neu grefyddol canfyddedig (sy'n anghywir neu wedi dyddio)
- Cadw cyfoeth, eiddo neu dir o fewn y teulu
- Atal perthnasoedd anaddas
- Rhoi cymorth gyda hawliadau ar gyfer preswyllo a dinasyddiaeth yn y DU
- Ymddygiad anfoesol canfyddedig gan gynnwys:
- Colur neu wisg amhriodol
- Meddu ar ac/neu ddefnyddio ffôn symudol
- Cusanu neu ddangos agosrwydd mewn ffordd arall yn gyhoeddus
- Gwrthod priodas dan orfod
- Bod yn ddiodeffydd trais neu ymosodiad rhywiol difrifol arall
- Perthnasoedd rhwng dau wahanol ffydd
- Ceisio ysgariad

Nid yw'r rhestr uchod yn gynhwysfawr.

Gall mathau o ymddygiad rheolgar gyd-fynd â chyflawni troseddau yn erbyn dioddefwyr gan gynnwys:

- Arestiad tŷ
- Cyfyngiadau gormodol
- Gwrthod mynediad at unrhyw fath o ffôn, rhyngrwyd, cyswllt â ffrindiau neu gyswllt â phobl y tu hwnt i'r teulu agosaf
- Gwrthod mynediad at basbortau, tystysgrifau geni, cyfrifon banc a mathau eraill o ddogfennaeth swyddogol

Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei chynllun gweithredu tair blynedd ar y 3<sup>ydd</sup> o Fehefin 2008 ac mae wedi darparu canllawiau statudol ar gyfer gwasanaethau iechyd, addysg a chymdeithasol, **canllawiau ymarfer amlasiantaeth: ymdrin ag achosion o briodas dan orfod**. Bydd canllawiau statudol ar gyfer yr heddlu'n dod oddi wrth Lywodraeth Prydain, gan nad oes pwerau dros blismona wedi'u datganoli i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd is-grŵp priodasau dan orfod o fewn Gweithgor Cam-drin Domestig Cymru Gyfan yn gyfrifol am roi cyngor ynghylch rhoi'r cynllun gweithredu ar waith.

## **Atodiad 9: Cynadleddau Asesu Risg Amlasiantaeth ar Gam-drin Domestig (MARAC)**

Gweler Adran 4.11.2 yng *Ngweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008*

### **Cynadleddau Asesu Risg Amlasiantaeth ar Gam-drin Domestig (MARAC)**

Mae cynadleddau asesu risg amlasiantaeth (MARAC) yn broses i roi sylw i ddiogelwch ac amddiffyn y rheiny sydd fwyaf mewn perygl o ymosodiad difrifol neu lofruddiaeth o ganlyniad i gam-drin domestig. Mae amddiffyn dioddefwyr a'u plant yn effeithiol yn gyfrifoldeb amlasiantaeth ac mae'r gynhadledd hon i hwyluso'r broses asesu risgiau'n un a fynychir gan bartneriaeth o asiantaethau cyfiawnder troseddol, cyrff statudol eraill a'r sector cymorth gwirfoddol.

Mae proses MARAC yn ffordd o symud y cyfrifoldeb am fynd i'r afael â cham-drin domestig oddi wrth y dioddefydd at grŵp eang o asiantaethau.

Mewn nifer o sefyllfaoedd risg uchel, gall dioddefwyr/goroeswyr fabwysiadu safbwynt mwyfwy goddefol a derbyn eu sefyllfa heb y posibilrwydd o newid, gan eu gwneud yn annhebygol o geisio help. Mae MARAC yn erfyn hollbwysig ar gyfer rhoi sylw i'w diogelwch.

Mae cyfarfod MARAC yn cyfuno gwybodaeth gyfoes am risg ag asesiad cynhwysfawr o anghenion y dioddefydd/goroesydd gan gysylltu'r rheiny sy'n ymwneud yn uniongyrchol â darparu gwasanaethau priodol ar gyfer y dioddefydd/goroesydd, plant a'r partner sy'n cam-drin.

Nod MARAC yw:

- Rhannu gwybodaeth i wella diogelwch, iechyd a lles dioddefwyr/goroeswyr, oedolion a'u plant;
- Codi ymwybyddiaeth o effaith cam-drin domestig ar blant;
- Cytuno a gweithredu cynllun rheoli risg;
- Gostwng yr achosion o erledigaeth sy'n digwydd dro ar ôl tro;
- Penderfynu a yw'r partner sy'n cam-drin yn achosi risg sylweddol i unrhyw unigolyn arbennig neu i'r gymuned gyffredinol;
- Gostwng dynladdiad a cham-drin domestig;
- Atal cam-drin plant;
- Sicrhau atebolrwydd asiantaethau;
- Rhoi cymorth i aelodau o staff a gweithwyr proffesiynol sy'n gysylltiedig ag achosion cam-drin domestig risg uchel.

Gall MARAC argymhell atgyfeiriad at wasanaethau plant yr ALI i sicrhau y rhoddir sylw i'r holl faterion diogelu plant. Yn yr un modd, ar unrhyw adeg ym mhroses asesu gwasanaethau plant yr ALI gellir argymhell MARAC ac mae'n rhaid i drefniadau fod ar waith i rannu gwybodaeth rhwng y ddwy broses.

Dengys ymchwil fod profi cam-drin domestig yn gallu effeithio ar blant ym mhob agwedd ar eu gweithrediad – diogelwch, iechyd, presenoldeb yn yr ysgol, cyflawniad

addysgol, lles economaidd a datblygiad emosiynol a chymdeithasol. Yn yr achosion mwyaf eithafol mae plant mewn perygl o anaf difrifol neu farwolaeth.

Mae asiantaethau sy'n bartneriaid o fewn MARAC yn cydnabod y gorgyffyrddiad rhwng cam-drin domestig a cham-drin plant. Mae'r diffiniad cyfreithiol o niwed i blant wedi cael ei ymestyn i gynnwys y rheiny sy'n byw mewn aelwydydd lle mae cam-drin domestig yn digwydd. Diwygiad, *Adran 120, Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002*.

## Atodiad 10: Asesu risg a rheoli risg

Mae nifer o 'offer' yn cael eu treialu'n genedlaethol i asesu risg mewn perthynas â cham-drin domestig, ond efallai nad yw'n bosib creu un erfyn i'r holl asiantaethau, ac mae'r arweiniad cyffredinol isod wedi'i gymryd o nifer o ffynonellau sy'n archwilio meysydd risg a ffactorau amddiffynnol mewn perthynas â phartneriaid sy'n cam-drin, dioddefwyr/goroewyr (fel arfer y rhiant i'r plentyn nad yw'n cam-drin), a phlant.

Mae ystod o offer ar gael. Caiff model NSPCC ei ddefnyddio'n eang ledled Cymru. Mae CAF/CASS wedi creu eu fframwaith asesu cam-drin domestig eu hunain [[www.cafcass.gov.uk](http://www.cafcass.gov.uk)], ac mae model defnyddiol wedi cael ei ddatblygu yn y sector gwirfoddol gan Barnardos: '*Assessing the risks to children from domestic violence*'. Mae hwn yn amlygu naw maes i'w hasesu: natur y gamdriniaeth; y risg i blant a achosir gan y partner sy'n cam-drin; risgiau o angeuoldeb; patrwm ymosodiadau ac ymddygiad cymhellol y partner sy'n cam-drin; effaith y gamdriniaeth ar y fenyw; effaith y gamdriniaeth ar y plant; effaith y gamdriniaeth ar rolau rhianta; ffactorau amddiffynnol; canlyniadau ymdrechion gan y fenyw i geisio cymorth yn y gorffennol.

Mae rhybuddion wedi cael eu cyfleu ynghylch seilio asesiad risg a chroesholiad ar 'restr wirio', sy'n rhwystr i ddatblygu ymddiriedaeth, yn hytrach na deialog, sy'n agor y drafodaeth am gam-drin. Nid yw'n rhwydd asesu materion megis bygythiadau i ladd, ymddygiad cenfigennus a rheolgar, cam-drin rhywiol ac arwahanrwydd heb gyfathrebu agored, da. Mae prosiect arloesol, Prosiect Ymyrryd mewn Cam-drin Domestig Duluth yn argymhell bod y ddeialog yn cael ei seilio ar dri chwestiwn:

- Ydych chi'n meddwl y bydd eich partner yn eich anafu chi neu'n anafu'r plant yn ddirifol? Beth sy'n gwneud i chi feddwl hynny? Os nad ydych, pam?
- Pryd oedd yr adeg y cawsoch eich dychryn neu eich anafu fwyaf ganddynt?
- Ydy pethau'n mynd yn waeth? Disgrifiwch y patrwm cam-drin (amlder, math, difrifoldeb, cynnydd).

Gall y meysydd eraill a amlygwyd fel rhai sy'n arwyddocaol wrth ddeall y risgiau a achosir gan y partner sy'n cam-drin ddod i'r amlwg trwy'r cwestiynau hyn hefyd. Gall hefyd arwain at ganfod pa strategaethau amddiffynnol sydd wedi cael eu defnyddio hyd yma. Yn y broses hon, gellir defnyddio asesiad risg o'r partner sy'n cam-drin i sefydlu perthynas gefnogol rhwng ymarferwyr a menywod/dynion say'n cael eu heffeithio gan gam-drin domestig, gan gadw'r ffocws o hyd ar faterion sy'n allweddol bwysig i amddiffyn plant.

Mae canllawiau gan yr heddlu'n awgrymu y dylai pwrpas asesu risg fod fel a ganlyn:

- asesu'r risg ar hyn o bryd ac yn y dyfodol i'r fenyw ac unrhyw blant
- atal y cam-drin rhag cynyddu
- atal dioddefwyr rhag dioddef dro ar ôl tro
- ei gwneud yn bosib rheoli'r risg yn ddiogel
- ei gwneud yn bosib gweithredu'r strategaethau ymyrryd a diogelwch priodol

### FFACTORAU RISG YCHWANEGOL:

- cam-drin blaenorol gan y partneriaid
- cam-drin anifeiliaid anwes
- ymddygiad cenfigennus a rheolgar
- iechyd meddwl
- alcohol

- cyffuriau
- ymgeisiau i gyflawni hunanladdiad (y dioddefydd neu'r cyflawnydd)
- bygythiadau i ladd
- llindagu
- arfau a ddefnyddiwyd / mynediad at arfau
- problemau ariannol
- y dioddefydd yn teimlo'n anniogel o ddydd i ddydd
- arwydd o risg sydd ar fin digwydd i'r dioddefydd

## Atodiad 11: Dewisiadau cyfreithiol a dewisiadau o ran tai

Dylai fod gan ymarferwyr wybodaeth weithiol am yr amryw ddewisiadau cyfreithiol sydd ar gael i ddiodefwyr/goroeswyr cam-drin. Dylent wastad atgyfeirio rhieni nad ydynt yn cam-drin at wasanaethau cynghori arbenigol megis Cyngor Ar Bopeth (CAB), canolfan y gyfraith neu gyfreithiwr arbenigol, Cymorth i Fenywod neu Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA) a'r heddlu. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr a dylai gweithwyr proffesiynol gysylltu â'r cydlynwyr ar gyfer cam-drin domestig yn eu hardal i gael rhestr leol o asiantaethau arbenigol.

Ni ddylai ymarferwyr byth roi cyngor cyfreithiol i riant nad yw'n cam-drin gan nad dyna'u rôl hwy. Mae o gymorth pan fo gan ymarferwyr ddealltwriaeth am y dewisiadau sydd ar gael yn eu hardal leol ond dylent wastad atgyfeirio'r dioddefydd/goroesydd at asiantaeth arbenigol i gael cyngor cyfreithiol.

Mae cam-drin domestig yn groes i gyfraith sifil a throseddol. Mae corff sylweddol o ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i ymddygiad o'r fath a chaiff hwn ei grynhoi isod.

### 1. Cyfraith Sifil

Y darnau mwyaf arwyddocaol o ddeddfwriaeth sy'n ymdrin â'r maes yma yw Deddf Cyfraith Teulu 1996 Rhan IV a Deddfau Tai 1985 a 1996.

Mae'r Ddeddf Cyfraith Teulu wedi'i bwriadu i roi rhwymedïau i ddiodefwyr/goroeswyr cam-drin domestig ac mae'n caniatáu gwneud gorchmynion i gadw partner sy'n cam-drin i ffwrdd oddi wrth y dioddefydd/goroesydd, a hefyd i sicrhau bod y dioddefydd yn gallu parhau i fyw yn eu cartref eu hunain gyda'r camdrinydd yn cael ei gau allan ohono. Nid oes rhaid bod y dioddefydd/goroesydd a'r partner sy'n cam-drin wedi bod yn briod â'i gilydd er mwyn defnyddio'r ddeddfwriaeth hon a gellir ei defnyddio yn achos sawl gwahanol fath o berthynas. Os oes Gorchymyn wedi cael ei wneud gellir ychwanegu hawl i arestio ato, sy'n caniatáu i'r heddlu arestio'r partner sy'n cam-drin heb warant dan rai amgylchiadau arbennig.

Bydd yn rhaid i'r dioddefydd/goroesydd fynychu'r llys gyda'i chynrychiolydd er mwyn cael Gorchymyn dan y ddeddfwriaeth hon ac mae gan y partner sy'n cam-drin hawl i fod yn bresennol yn y gwrandawriad hwnnw. Gellir gofyn i'r Llys wneud trefniadau arbennig i sicrhau diogelwch unrhyw un sy'n mynychu'r Llys dan yr amgylchiadau hyn. Bydd y Llys yn clywed tystiolaeth ar ran y dioddefydd/goroesydd sy'n gwneud y cais a gall glywed tystiolaeth gan y partner sy'n cam-drin os yw'n dymuno dweud unrhyw beth. Bydd y Llys wedyn yn penderfynu a oes rhaid gwneud Gorchymyn. Bydd y dioddefydd/goroesydd yn cael cyngor llawn gan eu cynrychiolydd o ran pa dystiolaeth fydd ei hangen i ategu'r achos a'r trefniadau y gellir eu gwneud i sicrhau eu diogelwch yn y Llys.

Mae'r Deddfau Tai'n caniatáu gwneud addasiadau i gytundebau tenantiaeth lle mae tystiolaeth bod cam-drin domestig wedi digwydd. Gall y ddeddfwriaeth hon gael ei defnyddio gan y rheiny sy'n cynrychioli'r dioddefydd/goroesydd i ddiogelu'r denantiaeth ar gyfer eu cartref, hyd yn oed lle mae'r denantiaeth yn enw'r partner sy'n cam-drin. Mae'n arfer da gwahodd swyddogion tai i gyfarfodydd a drefnwyd i lunio cynlluniau diogelwch ar gyfer partneriaid nad ydynt yn cam-drin fel bod yr holl ddewisiadau'n cael eu harchwilio'n llawn.



Bydd ymgynghorydd cyfreithiol yn rhoi gwybodaeth i'r dioddefydd/goroesydd am yr holl ddewisiadau sydd ar gael iddi a'r cyfuniad mwyaf effeithiol o Orchmynion i gwrdd â'i hanghenion. Gellir rhoi cyngor hefyd ynghylch sut i gael mynediad at gymorth ariannol cyfreithiol ar gyfer y ceisiadau hynny.

## 2. Cyfraith Droseddol

Gall partner sy'n cam-drin fod yn cyflawni nifer o dramgwyddau troseddol ac mae dyletswydd ar yr heddlu i gymryd camau gweithredu cadarnhaol wrth ymchwilio i droseddau cam-drin domestig. Er mwyn arestio'r cyflawnydd ac erlyn yn llwyddiannus, bydd angen cyfleu cwyn a darparu tystiolaeth o dramgwydd troseddol. (Ni ellir arestio nac erlyn lle nad oes tramgwydd troseddol wedi digwydd.) Nid oes rhaid i'r gŵyn o anghenraid fod gan y dioddefydd/goroesydd. Dan rai amgylchiadau, lle mae tystiolaeth ddigonol, gall yr heddlu arestio partner sy'n cam-drin hyd yn oed os nad yw'r dioddefydd/goroesydd yn barod i gyfleu cwyn.

Unwaith y bydd cwyn wedi cael ei chyfleu i'r heddlu, bydd eu gweithredoedd yn dibynnu ar ddifrifoldeb y trosedd yr honnir ei fod wedi cael ei gyflawni a'u dyletswydd i amddiffyn y dioddefydd/goroesydd a'r cyhoedd. Gall hyn gynnwys arestio'r cyflawnydd ar unwaith ond ni fydd hyn wastad yn digwydd a bydd angen i'r dioddefydd/cyflawnydd ac unrhyw weithwyr proffesiynol sy'n gysylltiedig â'r achos gynnwys yr heddlu mewn trafodaethau ynghylch sut i ddiogelu'r dioddefydd/goroesydd a'u teulu tra bod unrhyw wrandawiadau Llys yn yr arfaeth.

Os caiff partner sy'n cam-drin eu cyhuddo o dramgwyddau troseddol yna byddant yn cael eu dwyn gerbron y Llys i sefyll eu prawf. Oni bai eu bod yn pledio'n euog i'r trosedd bydd yn rhaid rhoi tystiolaeth i ategu'r honiadau yn eu herbyn ac fe all hyn olygu bod y dioddefydd/goroesydd yn rhoi tystiolaeth yn y Llys. Mae gan bob Llys systemau i amddiffyn y dioddefydd/goroesydd yn ystod eu hamser yn y Llys a gall gweithwyr proffesiynol gysylltu â'r dioddefydd/goroesydd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r trefniadau sydd wedi cael eu gwneud i'w hamddiffyn.

Bydd canlyniad yr achos yn dibynnu ar gryfder y dystiolaeth gerbron y Llys a difrifoldeb y trosedd a gyflawnwyd. Os ceir fod y partner sy'n cam-drin yn euog gellir eu hanfon i'r carchar neu gallant gael dedfryd yn y gymuned ac mewn achos o'r fath gellid gosod cyfyngiadau ar eu symudiadau neu eu hymddygiad ar ôl i'r achos ddod i ben. Gellir gwneud Gorchmynion atodol hefyd mewn rhai mathau arbennig o achosion a fydd yn effeithio ar eu gallu i weithio mewn meysydd arbennig neu gymryd rhan mewn gweithgareddau arbennig. Os caiff troseddwy'r eu rhoi yng nghategori troseddwy'r treisgar, troseddwy'r a allai fod yn beryglus, os cafwyd hwy'n euog o droseddau rhyw neu os oes rhaid iddynt gofrestru fel troseddwy'r rhyw yna gallant gael eu rheoli dan Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA).

Os na cheir y partner sy'n cam-drin yn euog o drosedd yna byddant â'u traed yn rhydd unwaith y bydd y gwrandawriad wedi dod i ben a dylai ymarferwyr gynllunio gyda'r dioddefydd/goroesydd a'u cynrychiolydd i sicrhau eu bod yn ddiogel os digwydd hynny.

## 3. Rôl Llysoedd Trais Domestig Arbenigol (SDVC) ac Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA)

Mae Llysoedd Trais Domestig Arbenigol (SDVC) yn ymateb cydgysylltiedig i gam-drin domestig sy'n cyfuno ymyriadau trwy'r gyfundrefn cyfiawnder troseddol ac ymyriadau anhroseddol, ac sy'n ymateb amlasiantaeth sy'n gwella diogelwch dioddefwyr ac yn dwyn partneriaid sy'n cam-drin i gyfrif. Mae Llysoedd Trais Domestig Arbenigol ledled y DU (bron i 100) yn dilyn gwerthusiad llwyddiannus o ddwy raglen beilot (Caerffili a Croydon). Y nodweddion allweddol yw: ynadon sydd wedi cael hyfforddiant arbennig i ymdrin â cham-drin domestig, mynedfeydd, allanfeydd ac ardaloedd aros ar wahân fel nad yw dioddefwyr/troseddwyr yn dod i gysylltiad â'r partneriaid sy'n cam-drin, achosion yn cael eu clystyru ar ddiwrnod arbennig neu'n cael eu rhoi ar y trywydd cyflym trwy'r gyfundrefn, gan gyfyngu ar y tebygolrwydd y ceir digwyddiadau pellach, cymorth wedi'i deilwra a chyingor gan Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA). Lle maent ar gael, mae Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA) yn arbenigwyr hyfforddedig a'u nod yw diogelwch dioddefwyr/goroeswyr cam-drin domestig. Maent yn canolbwyntio ar atgyfeiriadau risg uchel a risg uchel iawn. Nodweddion allweddol eraill ar eu rôl yw: Ymyrryd mewn Argyfwng: gweithio o'r pwynt argyfwng gyda'r sawl a atgyfeiriwyd a chynnig cymorth dwys i helpu i sicrhau eu diogelwch yn y tymor byr a'r tymor hir; Risg: mae'r gwasanaeth yn seiliedig ar asesu a deall risg a'i reoli; Annibyniaeth: oddi ar y gyfundrefn cyfiawnder a llywodraeth leol, er mwyn canolbwyntio ar ddiogelwch, rhoi cymorth, a chyingor diduedd ynghylch dewisiadau diogelwch a threfniadau gweithio amlasiantaeth ar ran y dioddefydd/goroesydd. Gall pob Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol ennill cymhwyster proffesiynol a gydnabyddir yn genedlaethol (caada.org.uk/).

#### **4. Dewisiadau o ran tai**

Mae angen i ddioddefwyr/goroeswyr cam-drin domestig ystyried eu dewisiadau o ran tai ar gyfer y tymor byr a'r tymor hirach. Os yw partner nad yw'n cam-drin yn teimlo nad yw'n gallu aros yn y cartref teuluol o leiaf dros dro, dylid ystyried y dewisiadau canlynol. Sylwer y dylai'r dewisiadau sy'n ymwneud â symud y partner sy'n cam-drin fel a nodir uchod wastad gael eu gwneud yn hysbys i'r partner nad yw'n cam-drin. Mae Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA) yn ffynhonnell dda ar gyfer cyngor a chymorth mewn perthynas â dewisiadau o ran tai.

##### **Llochesi**

Mae llochesi'n darparu llety dros dro diogel, mewn argyfwng ar gyfer dynion, menywod a phlant y mae angen eu hamddiffyn rhag cael eu cam-drin. Gall y gweithwyr yn y llochesi roi gwybodaeth, cyngor a chymorth. Gallant roi cymorth ymarferol gyda hawliadau am fudd-daliadau, ymddangosiadau gerbron llys barn ac ati. Fodd bynnag, mae cyfleusterau megis ceginau, ystafelloedd ymolchi, ac ystafelloedd eistedd yn cael eu rhannu.

Mae Llinell Gymorth Cam-drin Domestig Cymru Gyfan yn rhoi cyngor a chymorth cyffredinol, a gall roi cyngor ynghylch llochesi ac argaeledd.

##### **Aros gyda theulu a ffrindiau**

Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau gallai hwn fod yn ddewis priodol yn y tymor byr. Fodd bynnag, byddai angen i ddioddefwyr fod yn ymwybodol y gall trefniadau o'r fath fethu'n gyflym iawn gan adael y dioddefwr yn aml heb unman i fyw. Mae trefniadau o'r fath hefyd yn aml yn gallu ei gwneud yn haws i'r dioddefydd gael eu canfod gan y cyflawnydd.

##### **Caledu'r targed**

Mae rhai awdurdodau lleol, asiantaethau neu elusennau lleol yn darparu gwasanaeth caledu'r targed i wneud y cartrefi'n fwy diogel ac felly alluogi dioddefwyr cam-drin domestig i aros yn eu cartrefi eu hunain. Mae rhai enghreifftiau'n cynnwys newid neu osod cloeon, darparu larymau a theledu cylch cyfyng, atgyweirio eiddo sydd wedi'i ddifrodi a darparu asesiad risg o'r eiddo fel y gellir rhoi mesurau ar waith. Mae asiantaethau cam-drin domestig arbenigol yn rheolaidd yn gwneud atgyfeiriadau at eu darparwyr lleol (mae manylion ar gael trwy Linell Gymorth Cam-drin Domestig Cymru Gyfan).

### **Gwneud cais fel rhywun digartref**

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i gynorthwyo dioddefwyr cam-drin domestig os ydynt wedi'u hargyhoeddi o'r canlynol;

Nad yw'n rhesymol iddynt barhau i fyw mewn llety er y gall fod hawl gyfreithiol i wneud hynny, os yw'n debygol y bydd byw yno'n arwain at gam-drin domestig, trais arall neu fygythiadau o drais o'r fath sy'n debygol o gael eu gwireddu;

- Yn erbyn yr ymgeisydd
- Yn erbyn y sawl sydd fel arfer yn byw gyda'r ymgeisydd, neu yn erbyn unrhyw un y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt fyw gyda'r ymgeisydd.

Os yw'r awdurdod lleol yn ystyried nad yw'n rhesymol i'r ymgeisydd barhau i fyw yn y llety yna mae'n rhaid iddo gynnig llety dros dro. Gall trefniadau o'r fath gynnwys lloches Cymorth i Fenywod / BAWSO, llety gwely a brecwast neu lety ar brydles. Gall ymgeiswyr hefyd ddewis cael eu lleoli mewn lloches y tu allan i'r ardal. Fodd bynnag, efallai na fydd rhai llochesi'n gallu cynorthwyo ymgeiswyr yr ystyrir fod ganddynt anghenion uchel o ran cymorth e.e. problemau gyda chyffuriau ac alcohol o ganlyniad i natur agored i niwed cleientiaid eraill yn y lloches.

Bydd amseroedd aros mewn llety dros dro'n amrywio'n sylweddol rhwng awdurdodau cyn y cynigir llety parhaol. Bydd y raddfa amser hon yn ddibynnol ar ddewis ardal yr ymgeisydd a'r maint eiddo sy'n ofynnol.

Bydd y gwasanaeth tai'n penderfynu a yw'n rhesymol disgwyl i ddiodefydd/goroesydd cam-drin domestig barhau i fyw yn eu llety presennol, pa un a yw'r diodefydd/goroesydd yn rhywun y rhoddir blaenoriaeth i'w anghenion a pha un a oes gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i ddarparu llety dros dro. Bydd pob achos yn cael ei asesu'n unigol.

Gall yr awdurdod lleol gynnig llety dros dro tra'i fod yn ymchwilio i'r achos. Os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu wedyn bod y diodefydd/goroesydd yn ddigartref, y dylid rhoi blaenoriaeth i'w anghenion a bod dyletswydd i ddarparu llety, gellir cynnig llety Cam 2 hunangynhaliol. Fodd bynnag, mewn nifer o achosion gall hyn fod y tu allan i'r ardal.

Mae amseroedd aros mewn llety dros dro'n faith. Gall fod yn fwy na dwy flynedd cyn y gellir cynnig llety parhaol o faint digonol ar gyfer teulu. Mae felly'n bwysig ceisio cael cymaint â phosib o wybodaeth am y sefyllfa leol.

I atal sefyllfa lle gofynnir i ddiodefwyr/goroeswyr cam-drin ymweld â dewisiadau o ran tai ar unwaith, gellir cysylltu ag uwch weithiwr achos a rhoi manylion yr achos. Gellir cwblhau cais fel rhywun digartref a'i ffacio at y gweithiwr achos. Fodd bynnag, os oes bygythiad uniongyrchol o gam-drin domestig, mae'n rhaid gwneud apwyntiad gyda'r tîm asesu ar y diwrnod hwnnw.

## **Trosglwyddiad rheoli**

Gall trosglwyddiad rheoli fod yn ddewis os yw'r partner nad yw'n cam-drin yn unig denant a bod y partner sy'n cam-drin yn byw yn rhywle arall. Bydd angen ystyried pob achos yn unigol. Dylid rhoi cyngor ynghylch rhwymedïau cyfreithiol ac asiantaethau cymorth arbenigol, fel a nodir uchod, i alluogi'r partner nad yw'n cam-drin i gymryd unrhyw gamau angenrheidiol i'w hamddiffyn eu hunain a'u teulu tra'u bod yn disgwyl am drosglwyddiad (rhaid nodi bod targed ar gyfer ailgartrefu achosion trosglwyddiadau rheoli).

## **Materion mewnfudo**

Mae angen i weithwyr proffesiynol sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth dda am faterion sy'n ymwneud â theuluoedd sydd ddim yn cael hawlio arian cyhoeddus a sut y gallant weithio gyda'r dioddefwyr/goroeswyr hyn, yn enwedig mewn perthynas â mynediad at Gymorth Cyfreithiol a Thai.

## **Ddim yn cael hawlio arian cyhoeddus (NRPF): Cam-drin domestig a'r rheol dwy flynedd**

Mae pobl o wledydd tramor sy'n dod i mewn i, neu'n aros yn y DU ar sail priodas neu berthynas â phriod/partner sydd wedi ymgartrefu yn y DU neu sy'n ddinesydd Prydeinig yn cael caniatâd cyfyngedig i aros yn y lle cyntaf. Maent yn cael cyfnod prawf, ac ar ddiwedd y cyfnod, gyda chymorth eu priod neu bartner sydd wedi ymgartrefu yn y DU, gallant wneud cais am ganiatâd amhenodol i aros. Cafodd y cyfnod prawf hwn ei ymestyn i ddwy flynedd yn 2003.

Yn ystod y cyfnod prawf, nid yw'r partner o wlad dramor yn cael hawlio arian cyhoeddus. Fodd bynnag, os yw'r briodas neu'r berthynas yn methu oherwydd cam-drin domestig yn ystod y cyfnod prawf, gall y partner o wlad dramor wneud cais am gael ymgartrefu os ydynt yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer Caniatâd Amhenodol i Aros dan y Rheol Trais Domestig (Paragraff 289A o'r Rheolau Mewnfudo). Mae ofn y byddant yn cael eu halltudio'n ffactor sy'n atal pobl mewn sefyllfaoedd o'r fath rhag datgelu. Mae partneriaid sy'n cam-drin yn aml yn defnyddio'r ofn hwn fel erfyn rheoli.

Mewn sefyllfaoedd o'r fath, dylai ymarferwyr geisio cyngor gan asiantaethau cymorth ynghylch cymhwyster unrhyw fenywod i wneud cais dan y consesiynau i'r rheol sy'n ymwneud â cham-drin domestig. Rhaid nodi bod hon yn broses faith iawn.

## Atodiad 12: Rhifau ffôn a gwefannau

Yr Heddlu: Mewn Argyfwng 999

Gellir cysylltu ag Unedau Cam-drin Domestig yr heddlu trwy Bencadlys pob un o'r Heddluoedd, a restrir isod:

Heddlu Dyfed-Powys:	0845 330 2000
Heddlu Gwent:	01633 838111
Heddlu Gogledd Cymru:	0845 607 1001 (Cymraeg) 0845 607 1002 (Saesneg)
Heddlu De Cymru:	01656 655555

Llinell Gymorth Cam-drin Domestig Cymru Gyfan: 0808 801 0800

Llinell Gymorth NSPCC Cymru: 0808 100 2524

Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol – i ganfod Practisiau Cyfraith Teulu lleol  
[www.communitylegaladvice.org.uk](http://www.communitylegaladvice.org.uk) : 0845 345 4345

Black Association of Women Step Out (BAWSO): Rhif Ffôn 24 Awr 0800 731 8147

Cymorth i Ddiodefwyr: 0845 303 0900

Prosiect Dyn (i ddiodefwyr gwrywaidd a gwybodaeth am lochesi ar gyfer dynion):  
0808 801 0321

Respect (i ddynion sy'n dymuno newid eu hymddygiad a gwybodaeth am Raglenni  
Rhyddid i ddynion): 0845 122 8609

Childline: 0800 1111

Honour Network: 0800 599 9247

Uned Priodas Dan Orfod: 0207 008 0151

Sefydliad Henna: 02920 496920

Cyngor Ffoaduriaid Cymru: 02920 489800 [www.welshrefugeecouncil.org](http://www.welshrefugeecouncil.org)

Grwpiau Cymorth i Fenywod yng Nghymru  
(Yr Holl Grwpiau yng Nghymru): 02920) 390 874 [www.welshwomensaid.org](http://www.welshwomensaid.org)

Tai Hafan: 01267 225555 [www.tai-hafan.co.uk](http://www.tai-hafan.co.uk)

Tros Gynnal: 029 2039 6974 [www.trosgynnal.org.uk](http://www.trosgynnal.org.uk)

Gweithredu Dros Blant: 0300 123 2112 [www.actionforchildren.org.uk](http://www.actionforchildren.org.uk)

Barnardos: [www.barnardos.org.uk](http://www.barnardos.org.uk)

NSPCC: 020 7825 2775 [www.nspcc.org.uk](http://www.nspcc.org.uk)